Cyllid & Tollau EM

Sut i gwblhau eich ffurflen dreth

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i gwblhau eich ffurflen dreth bapur. Mae'n bwysig eich bod yn darllen ac yn deall y ddwy dudalen gyntaf cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen. Yna, unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen dreth bapur, rhaid iddi ein cyrraedd erbyn **31 Hydref 2011**.

Fel arall, pam na ewch ati i gyflwyno ar-lein? Mae'n ddiogel, yn gyfleus a rhoddir cymorth ar y sgrin os bydd ei angen. Bydd gennych dri mis ychwanegol i gwblhau'r ffurflen gan fod rhaid dychwelyd ffurflenni treth ar-lein erbyn **31 Ionawr 2012**. Mae'n syml a gellir dod o hyd iddi ar ein gwefan. I ddefnyddio Hunanasesiad Ar-lein ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg** a dewiswch *Gwasanaethau Ar-lein* o'r golofn ar y chwith ac yna *Hunanasesiad Ar-lein ar gyfer Unigolion*.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau, gan gynnwys arweiniad ar ffurf Braille, awdio ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras. Cysylltwch â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg os bydd angen y gwasanaethau hyn arnoch.

Cynnwys

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno – papur TRG 1

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno – ar-lein TRG 1

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno – ffurflenni treth a anfonwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2011 TRG 1

Cosbau am fethu â chyflwyno erbyn y dyddiad cau TRG 1

Sut i gwblhau eich ffurflen dreth TRG 1

Os bydd angen cymorth arnoch TRG 2

Dechrau arni TRG 2

Yr hyn a gynhwysir yn eich ffurflen dreth TRG 2
- Cyflogaeth TRG 3
- Hunangyflogaeth TRG 3
- Partneriaeth TRG 3
- Eiddo yn y DU TRG 3
- Tramor TRG 4
- Ymddiriedolaethau ac ati TRG 5
- Crynodeb enillion cyfalaf TRG 5
- Preswyl, sail trosglwyddo ac ati TRG 6
- Gwybodaeth Ychwanegol TRG 6

Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr TRG 6

Incwm TRG 7

Llog a difidendau o fanciau a chymdeithasau adeiladu y DU ac ati TRG 7
- Cynilion a buddsoddiadau ar y cyd TRG 7
- Parau priod a phartneriaid sifil TRG 7
- Enwebeion ac ymddiriedolaethau gwag TRG 7
- Incwm sy'n dod o roddion i'ch plant TRG 7
- Derbyniadau drwy ariannu amgen TRG 7
- Blwydd-daliadau bywyd a brynwyd TRG 8

Llog ac ati'r DU TRG 8

Difidendau'r DU TRG 9
- Difidendau o gwmnïau a effeithir gan reolau cwmnïau gwasanaeth TRG 10
- Difidendau a gynhyrchir TRG 10

Mathau eraill o incwm a gynhwyswyd ym mlychau 1 i 6 TRG 10
- Cymryd drosodd, cydsoddi a thrawsnewid cymdeithasau adeiladu TRG 10
- Trosglwyddo hawl i gael incwm TRG 10

Pensiynau, blwydd-daliadau a budd-daliadau eraill y wladwriaeth yn y DU TRG 11
- Eithriwch o flychau 7 i 12 TRG 11
- Didyniad o 10% TRG 13

Incwm arall y DU nas cynhwyswyd ar dudalennau atodol TRG 14

Rhyddhad treth TRG 16

Cyfrannu i gynlluniau pensiwn cofrestredig a chynlluniau pensiwn tramor TRG 16
- Terfynau'r rhyddhad TRG 17
- Taliad a ddidynnir o'ch cyflog cyn iddo gael ei drethu (trefniant talu net) TRG 17
- Rhyddhad wrth y ffynhonnell TRG 17
- Taliadau a wnaed yn llawn TRG 17

Cyfrannu at elusennau TRG 18
- Rhodd cymorth TRG 18

Lwfans Person Dall TRG 20

Cwmnïau gwasanaeth TRG 21

Gorffen eich ffurflen dreth TRG 21
- Cyfrifo eich treth TRG 21

Treth a ad-dalwyd neu a wrthbwyswyd TRG 22

Os nad ydych wedi talu treth ddigonol TRG 22

Os ydych wedi talu gormod o dreth TRG 23
- Ad-dalu enwebeion TRG 24

Eich cynghorydd treth, os oes un gennych TRG 24

Llofnodi eich ffurflen a'i dychwelyd TRG 24
- Ffigurau dros dro TRG 24
- Amcangyfrifon (gan gynnwys prisiadau) TRG 25

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno – i'ch atgoffa TRG 25
- Beth fydd yn digwydd nesaf TRG 25

Bras amcan o'ch bil treth TRG 26

Taflenni Cymorth TRG 27

Gwybodaeth bellach tu mewn y clawr cefn

Eich hawliau a'ch ymrwymiadau tu mewn y clawr cefn

Os oes gennych gŵyn tu mewn y clawr cefn

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth tu mewn y clawr cefn

Dyddiadau allweddol

- **31 Hydref 2011** – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth bapur
- **30 Rhagfyr 2011** – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth ar-lein os ydych am i ni gasglu'r dreth sy'n ddyledus drwy eich cod treth TWE
- **31 Ionawr 2012** – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth ar-lein a thalu

Cyflwyno ar-lein

I gyflwyno ar-lein ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg** a dewiswch *Gwasanaethau Ar-lein* o'r golofn ar y chwith ac yna Hunanasesiad *Ar-lein ar gyfer Unigolion*.

Gall cofrestru gymryd rhwng saith a deg diwrnod, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru'n gynnar er mwyn caniatáu digon o amser i chi gyflwyno.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno – papur

Os penderfynwch gwblhau ffurflen dreth bapur bydd yn rhaid i chi ei dychwelyd erbyn **31 Hydref 2011** er mwyn rhoi digon o amser i ni gyfrifo eich bil treth, neu eich ad-daliad, ac i roi'r canlyniad i chi cyn y dyddiad cau ar gyfer talu sef **31 Ionawr 2012**.

Os derbyniwn eich ffurflen dreth bapur erbyn 31 Hydref ac

- mae treth yn ddyledus (hyd at £2,000), ac
- mae gennych god TWE

byddwn yn casglu'r dreth sydd arnoch, os yn bosib, drwy god treth y flwyddyn nesaf, oni bai bod yn well gennych ei dalu erbyn 31 Ionawr 2012.

Os lawrlwythwch ffurflen dreth o'r rhyngrwyd, rhaid i chi gofrestru gyda CThEM i gael cyfeirnod trethdalwr unigryw er mwyn nodi'r rhif hwn ar y ffurflen a lawrlwythwyd cyn ei hanfon at CThEM. Mae fwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk/sa/introduction.htm#2**

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno – ar-lein

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ar-lein yw **31 Ionawr 2012** (felly os byddwch yn colli'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ar bapur, gallwch gyflwyno eich ffurflen dreth ar-lein o hyd). Ond os ydych am i ni gasglu unrhyw dreth sy'n ddyledus drwy eich cod treth ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd angen i chi gyflwyno eich ffurflen dreth ar-lein erbyn **31 Rhagfyr 2011**. Rydym yn eich argymell yn gryf i gyflwyno ar-lein oherwydd:

- mae'n ddiogel ac yn gyfleus
- gwneir y cyfrifiadau ar eich rhan yn awtomatig
- mae cymorth ar gael ar y sgrin os bydd ei angen
- cewch neges ar unwaith i gydnabod ein bod wedi derbyn eich ffurflen dreth.

Dyddiad cau – ffurflenni treth a anfonir atoch ar ôl 31 Gorffennaf 2011

Yn yr amgylchiadau hyn caiff y dyddiadau cau eu hymestyn i:

- tri mis ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y ffurflen dreth atoch – ar gyfer ffurflenni treth papur
- yr hwyraf o 31 Ionawr 2012 neu 3 mis ar ôl i'r ffurflen dreth, neu rybudd ar wahân sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno ffurflen dreth, cael ei hanfon atoch – ar gyfer ffurflenni treth ar-lein.

Tybir na fydd y dyddiad y derbynnir y ffurflen dreth yn hwy na 7 niwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd ei hanfon atoch.

Cosbau am fethu a chyflwyno erbyn y dyddiad cau

Os methwch â chyflwyno eich ffurflen dreth erbyn y dyddiad cau priodol, codir cosb arnoch o £100, p'un a oes yn rhaid i chi dalu treth ai peidio. Os na fyddwch yn dychwelyd eich ffurflen dreth o hyd, codir y cosbau canlynol arnoch hefyd:

- dros dri mis yn hwyr - cosb ddyddiol
- dros chwe mis yn hwyr – cosb ychwanegol o £300 neu 5% o'r dreth sy'n ddyledus os yw hyn yn fwy
- dros ddeuddeg mis yn hwyr – £300 pellach neu 5% pellach o'r dreth sy'n ddyledus os yw hyn yn fwy.

Sut i gwblhau eich ffurflen dreth

Os dewiswch gwblhau'r ffurflen bapur dylech ddarllen 'Sut i gwblhau eich ffurflen dreth' ar dudalen TR 1 y ffurflen dreth. Yn ogystal â hyn:

- mae'n bwysig iawn eich bod yn nodi'r swm cywir yn y blwch priodol oherwydd yn gyffredinol byddwn yn derbyn y ffigurau a nodwch ar eich ffurflen dreth. Gall gwallau olygu y gellir gofyn i chi dalu'r swm anghywir a gall gymryd amser i'w gywiro
- nodwch bunnoedd llawn yn unig a pheidiwch â chynnwys ceiniogau. Talgrynnwch eich incwm i lawr a thalgrynnwch y dreth a dalwyd/credydau treth i fyny
- pan fyddwch yn cwblhau'r blychau 'swm' gallwch ddechrau ar y chwith ger yr arwydd £ neu ar y dde cyn y pwynt degol – does dim gwahaniaeth

- efallai weithiau bydd yn rhaid i chi nodi symiau negyddol. Gwnewch hyn drwy nodi arwydd minws yn y blwch a ddarperir, cyn eich ffigurau.

Os gofynnwch i rywun arall (eich cyfrifydd neu gynghorydd treth neu efallai gyfaill neu berthynas) i gwblhau eich ffurflen dreth ar eich cyfer, byddwch yn para'n gyfrifol am yr hyn a nodir ar y ffurflen. A rhaid i **chi** lofnodi'r ffurflen. Cysylltwch â ni os yw llofnodi'r ffurflen yn achosi problem i chi.

Os bydd angen cymorth arnoch

Mae'n annhebyg iawn y bydd angen i chi ddarllen y canllaw hwn yn llwyr a does dim nodiadau ar gyfer pob blwch ar y ffurflen – dim ond nodiadau ar gyfer y rhai y credwn y gallai fod angen ychydig yn fwy o eglurhad. Nid ydym yn cynnwys yr holl fanylion yma – ac felly byddwn weithiau yn eich cyfeirio at daflenni cymorth. Ffoniwch ni am fwy o wybodaeth neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**.

Dechrau arni

Yn gyntaf casglwch eich cofnodion ariannol ynghyd am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011, er enghraifft:

- eich ffurflenni P60, P11D neu P45 Rhan 1A a'ch Hysbysiadau Cod TWE ar gyfer 2010-11 a 2011-12
- os ydych yn gweithio i chi eich hun, eich cyfrif elw a cholled neu, os nad ydych yn llunio cyfrifon ffurfiol, eich cofnodion busnes ar gyfer derbyniadau a threuliau
- eich cyfriflenni banc, llyfr cyfrif cymdeithas adeiladu, bonion difidend, atodlenni buddsoddiadau drwy frocer ac ati
- tystysgrifau cyfraniadau pensiwn personol.

Yna, edrychwch drwy'r ffurflen i weld pa fath o wybodaeth sydd ei hangen.

Os cyflwynwch eich ffurflen dreth erbyn y dyddiad cyflwyno, fel arfer dylech gadw eich cofnodion tan 31 Ionawr 2013, neu tan 31 Ionawr 2017 os ydych yn hunangyflogedig neu mewn partneriaeth. Bydd angen i chi gadw eich cofnodion yn hwy os cyflwynwch eich ffurflen dreth yn hwyr neu os byddwn wedi dechrau gwirio eich ffurflen dreth. Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r math o gofnodion sy'n rhaid i chi eu cadw yn **www.hmrc.gov.uk/record-keeping/index.htm**

Yr hyn a gynhwysir yn eich ffurflen dreth

Rydym wedi anfon ffurflen dreth y credwn sy'n gweddu i'ch amgylchiadau personol, yn seiliedig ar y ffurflen dreth ddiwethaf a gwblhawyd gennych. Ond eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl dudalennau perthnasol gennych. Bydd y cwestiynau ar dudalen TR 2 y ffurflen a'r nodiadau isod yn eich helpu i benderfynu pa dudalennau sydd angen i chi eu cwblhau. Rydym hefyd yn defnyddio eich atebion i'r cwestiynau i sicrhau eich bod wedi anfon y tudalennau cywir atom. Os atebwch unrhyw un o gwestiynau 1-8 yn gadarnhaol dylech sicrhau bod eich ffurflen dreth yn cynnwys y dudalen ar gyfer y math hynny o incwm neu ennill. Fel arall caiff eich ffurflen dreth ei thrin fel petai yn anghyflawn a'i hanfon yn ôl atoch.

Os na fydd y ffurflen dreth yn cynnwys tudalen ar gyfer math arbennig o incwm neu os oedd gennych enillion cyfalaf, efallai y bydd angen tudalen atodol ar wahân arnoch. Os felly, ffoniwch y Llinell Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489** i archebu'r rhai sydd eu hangen arnoch neu ewch i **www.hmrc.gov.uk** i'w lawrlwytho.

Mae blychau ar gyfer rhai o'r mathau llai cyffredin o incwm a rhyddhad treth ac ar gyfer gwybodaeth arall yn y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol* a amgaewyd ym mhecyn y ffurflen dreth – gweler tudalen TRG 6 am fanylion o'r hyn a gynhwysir yn y tudalennau hyn.

Nid ydym wedi anfon y tudalennau *Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth* atoch gyda'r ffurflen dreth; os ydych am gyfrifo eich treth eich hun yna gofynnwch amdanynt neu gallwch ei gweld ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

1. Cyflogaeth

Dylai rhai mathau o incwm o gyflogaeth gael eu cynnwys ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol,* a amgaewyd yn y pecyn ffurflen dreth, ac nid y dudalen *Cyflogaeth*, felly gwiriwch y rheiny'n gyntaf cyn gofyn am y dudalen *Cyflogaeth* a'r *nodiadau*.

Cwblhewch y tudalennau *Cyflogaeth*:
- os oeddech wedi eich cyflogi ar sail rhan amser, amser llawn neu'n achlysurol
- os oeddech yn gyfarwyddwr cwmni
- os oeddech yn weithiwr asiantaeth
- os oeddech yn ddeiliad swydd, er enghraifft, cadeirydd, ysgrifennydd neu drysorydd
- petaech chi wedi cael eich trin fel cyflogai person arall oni bai eich bod wedi defnyddio cwmni neu bartneriaeth fel cyfryngwr.

Bydd angen un dudalen *Cyflogaeth* arnoch ar gyfer pob cyflogaeth, swydd fel cyfarwyddwr ac ati.

Ni fydd angen i chi gwblhau tudalen *Cyflogaeth*:
- os oeddech yn dal swydd (ond nid fel cyfarwyddwr) ac yn derbyn ad-daliadau dim ond am y treuliau a dalwyd yn wirioneddol gennych chi eich hun (ni chawsoch unrhyw daliadau eraill o gwbl)
- os oeddech yn gyfarwyddwr cwmni ac ni chawsoch unrhyw daliadau neu fuddiannau o gwbl am wneud y swydd honno
- os oeddech yn dal swydd neu mewn cyflogaeth ond nid oes rhwymedigaeth i Dreth Incwm y DU yn codi ar yr enillion hynny oherwydd eich bod yn preswylio, fel arfer yn preswylio neu roedd eich domisil, y tu allan i'r DU. (Os oedd gennych dwy neu fwy o swyddi neu gyflogaeth gyda'r un cyflogwr neu gyflogwyr cysylltiol ac mae eich enillion o, dyweder un, yn agored i Dreth Incwm y DU ond nid yw'r enillion o'r llall, dylech gwblhau tudalen *Cyflogaeth* ar gyfer y ddwy neu'r holl gyflogaethau cysylltiedig. Cysylltwch â ni am gyngor os ydych yn ansicr.)

Os bydd un o'r uchod yn berthnasol i chi, nodwch pam nad ydych yn cwblhau tudalen *Cyflogaeth* yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6.

2. Hunangyflogaeth

Os oeddech mewn busnes ar eich liwt eich hun, neu os oeddech yn isgontractiwr yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, cwblhewch y tudalennau *Hunangyflogaeth*. Os buoch yn gweithio gyda rhywun arall mewn partneriaeth, defnyddiwch y tudalennau *Partneriaeth* yn lle hynny.

Mae dau fath o dudalennau *Hunangyflogaeth* – rhai byr a rhai llawn. Os yw eich busnes yn syml ac os yw eich trosiant blynyddol yn is na £70,000, byddwch mwy na thebyg yn gallu defnyddio'r tudalennau byr. Os yw eich busnes yn fwy cymhleth ac os oedd eich trosiant yn £70,000 neu ragor, neu os oes angen i chi addasu eich elw, bydd angen i chi gwblhau'r tudalennau llawn.

3. Partneriaeth

Bydd yn rhaid i bob partner gwblhau tudalennau *Partneriaeth* fel rhan o'i ffurflen dreth bersonol ef/hi a bydd rhaid i un partner gwblhau ffurflen dreth y Bartneriaeth.

4. Eiddo yn y DU

Defnyddiwch y tudalennau *Eiddo yn y DU* i gofnodi rhent am incwm gosod eiddo yn y DU ac incwm o lety gwyliau wedi ei ddodrefnu o eiddo yn y DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) . Efallai y bydd angen y tudalennau *Eiddo yn y DU* hefyd os ydych yn gosod ystafelloedd wedi eu dodrefnu yn eich cartref eich hun yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011. Ond os oedd gosod yr eiddo hwn yn cyfrif fel masnach – er enghraifft, oherwydd eich bod yn darparu prydau bwyd a gwasanaethau eraill – bydd angen i chi gael y tudalennau *Hunangyflogaeth*.

5. Tramor

Os mai eich unig incwm tramor oedd:
- llog tramor heb ei drethu a gafwyd (hyd at £2,000), a/neu
- difidendau tramor a drethwyd (hyd at £300)

gallwch eu nodi ym mlwch 2 (ar gyfer treth dramor heb ei drethu) neu flwch 5 (ar gyfer difidendau tramor) ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth. Yn ychwanegol at hyn darllenwch y nodiadau ar gyfer blwch 2 (ar dudalen TRG 9 ar gyfer llog tramor) ac ar gyfer blwch 5 (ar dudalen TRG 10 ar gyfer difidendau tramor).

Fel arall, dylech gwblhau'r tudalennau *Tramor* os cewch incwm o unrhyw un o'r ffynonellau tramor canlynol:
- llog ac incwm o gynilion tramor
- difidendau o gwmnïau tramor
- pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau tramor
- incwm o dir ac eiddo tramor (ond yn eithrio llety gwyliau wedi'i ddodrefnu o eiddo yn yr AEE)
- buddion o ymddiriedolaeth yn y DU sydd naill ai wedi bod, neu sydd wedi derbyn incwm o ymddiriedolaeth dramor
- enillion ar bolisi yswiriant bywyd tramor.

Dylid cwblhau'r tudalennau *Tramor* hefyd:
- os didynnwyd treth dramor o'r incwm tramor ac rydych am hawlio rhyddhad rhag trethiant dwbl, er enghraifft, trwy hawlio ryddhad credyd treth dramor, neu
- os cawsoch ddifidendau o gwmnïau tramor ac rydych am elwa o gredydau treth ar ddifidendau'r DU yn ogystal â rhyddhad credyd treth dramor.

Darllenwch y nodiadau ar gyfer y tudalennau *Tramor* i gael gwybodaeth bellach ynglŷn â rhyddhad credyd treth dramor a Chytundebau Trethiant Dwbl *(Double Taxation Relief DTAs)*.

Os ydych yn hawlio cael eich trethu ar y sail drosglwyddo ar gyfer 2010-11, ond ni wnaethoch drosglwyddo unrhyw beth i'r DU yn ystod y flwyddyn dreth, mewn perthynas ag incwm tramor y sonnir amdano ar y tudalennau *Tramor*, does dim rhaid i chi gwblhau'r tudalennau *Tramor*. Dylech hawlio'r sail drosglwyddo drwy gwblhau'r tudalennau *Preswyl, sail drosglwyddo ac ati*, yn lle hynny (gweler tudalen TRG 6).

Ni ddylid cynnwys yr eitemau canlynol ar y tudalennau *Tramor*. Dylid eu cynnwys ar dudalennau perthnasol eich ffurflen dreth yn lle hynny:
- nodwch incwm tramor a enillwyd gan eich busnes neu eich partneriaeth ar y tudalennau *Hunangyflogaeth* neu *Partneriaeth*
- nodwch unrhyw enillion cyfalaf trethadwy a gododd trwy waredu asedion tramor ar y tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*
- nodwch incwm o gyflogaeth dramor ar y dudalen *Cyflogaeth*.

Fodd bynnag, os byddwch yn hawlio rhyddhad credyd treth dramor ar yr incwm hwn, dylech gwblhau'r adran briodol ar dudalen F 6 y tudalennau *Tramor*.

Os nad oes angen i chi gwblhau'r tudalennau *Tramor*, rhowch 'X' yn y blwch 'Nac oes' yn adran 5 ar dudalen TR 2 eich ffurflen dreth.

Pan:
- fyddwch wedi trosglwyddo asedion, neu wedi cymryd rhan yn y broses o drosglwyddo asedion ac o ganlyniad i hynny daeth incwm yn daladwy i berson sydd dramor, neu
- bydd rhywun arall wedi trosglwyddo asedion neu wedi cymryd rhan yn y broses o drosglwyddo asedion ac o ganlyniad i hynny daeth incwm yn daladwy i berson sydd dramor, ac rydych wedi derbyn budd o ganlyniad i'r trafodyn perthnasol

yna bydd Taflen Gymorth 262 *Income and benefits from transfer of assets abroad and income from non-resident trusts* yn eich helpu i benderfynu p'un a ddylid cynnwys unrhyw incwm ar y tudalennau *Tramor*. Mae person sydd dramor yn cynnwys unigolyn, ymddiriedolwyr setliad, cwmni neu berson arall.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

6. Ymddiriedolaethau ac ati

Os oeddech yn fuddiolwr ymddiriedolaeth (ac eithrio ymddiriedolaeth wag 'bare trust') neu setliad, neu setlwr ymddiriedolaeth neu setliad y tybir bod yr incwm yn eiddo i chi, cwblhewch y tudalennau *Ymddiriedolaeth* ac ati.

Os cawsoch incwm o ystâd person ymadawedig peidiwch â chwblhau'r tudalennau *Ymddiriedolaeth* ac ati:

- os mai'r hyn yr oedd hawl gennych iddo oedd cymynrodd o swm penodedig o arian neu ased penodol, neu
- os talwyd eich cymynrodd ynghyd â llog – os talwyd y llog ar ôl didynnu treth nodwch y llog ym mlwch 1 ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth; os talwyd y llog heb ddidynnu treth nodwch ef ym mlwch 2 ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth, neu
- os daeth yr incwm hwnnw o ased penodol yr ystâd a gellir ei nodi mewn man arall ar eich ffurflen dreth, er enghraifft, rhenti o eiddo'r ystâd.

7. Enillion cyfalaf

Rhaid i chi gwblhau tudalennau *Cynodeb o Enillion Cyfalaf* **ac** atodi eich cyfrifiannau os yn ystod y flwyddyn dreth:

- gwnaethoch waredu asedion trethadwy a oedd yn werth mwy na £40,400, neu
- mae eich enillion trethadwy (cyn didynnu unrhyw golledion) yn fwy na £10,100, neu
- os ydych am hawlio colled cyfalaf caniataol neu hawlio unrhyw enillion cyfalaf neu wneud dewis arall am y flwyddyn, neu
- nid oedd eich domisil yn y DU ac rydych yn gwneud cais i gael eich trethu ar eich enillion cyfalaf tramor ar y sail trosglwyddo, neu
- rydych wedi gwneud 'dewis' ar gyfer blwyddyn flaenorol er mwyn i golledion tramor sy'n cronni, pan nad yw eich domisil yn y DU, gael eu caniatáu, a chafodd enillion cyfalaf tramor trethadwy (a gronnodd yn ystod neu ar ôl y flwyddyn gyntaf a gwmpesir gan y dewis hwnnw ond cyn 2010-11) eu
  - trosglwyddo i'r DU yn 2010-11 a'u
  - trethu ar y sail trosglwyddo.

Os nad yw eich domisil yn y DU ac rydych yn agored i dreth ar y sail drosglwyddo, yna wrth gymhwyso'r terfynau uchod, dylech gynnwys y derbyniadau a gafwyd wrth waredu unrhyw asedion nad ydynt yn rhai'r DU i'r graddau bod yr enillion o'r gwarediad hwnnw yn cael eu trosglwyddo i'r DU.

Wrth gyfrifo p'un a oedd yr asedion a waredwyd gennych yn werth fwy na £40,400, defnyddiwch werth marchnad unrhyw asedion a roddwyd neu a werthwyd gennych am lai na'u gwerth llawn ac anwybyddwch y canlynol:

- pan fyddwch wedi gwaredu asedion a eithrir, fel ceir preifat, cyfranddaliadau a gedwir o fewn Cyfrif Cynilo Unigolyn (ISA)
- pan fyddwch yn gwaredu asedion i'ch priod neu eich partner sifil (os oeddech yn byw gyda'ch gilydd ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn dreth)
- pan fyddwch yn gwaredu eich cartref eich hun, lle
  - dyma eich unig gartref yn ystod eich perchenogaeth ac ni chafodd ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill, er enghraifft, yn eich busnes
  - defnyddiwyd eich tŷ fel eich cartref trwy gydol eich perchenogaeth (ond gallwch anwybyddu tair blynedd olaf eich perchenogaeth)
  - nid oedd yr ardd a'r tir, a waredwyd ar yr un pryd, yn fwy na hanner hectar.

Wrth gyfrifo cyfanswm eich enillion trethadwy dylech gynnwys unrhyw enillion a briodolir i chi (er enghraifft, oherwydd eich bod yn setlwr neu'n fuddiolwr ymddiriedolaeth, neu mewn rhai achosion pan ydych yn aelod o gwmni dibreswyl).

8. Dibreswyl, sail trosglwyddo ac ati

Os ystyriwch nad ydych yn preswylio, fel arfer yn preswylio neu nad yw eich domisil yn y DU, neu fod gennych breswyl deublyg yn y DU ac mewn gwlad arall, cwblhewch y tudalennau *Preswyl ac ati* **yn gyntaf** (cyn cwblhau unrhyw dudalennau eraill).

Dylech hefyd gwblhau'r tudalennau *Preswyl, sail drosglwyddo ac ati* os ydych am ddefnyddio'r sail drosglwyddo mewn perthynas â'ch incwm a'ch enillion tramor ar gyfer 2010-11. Mae'r tudalennau hyn yn adlewyrchu'r newididau a wnaed o ran trethiant y sail drosglwyddo er 6 Ebrill 2008. Dylech ddarllen y tudalennau *Preswyl, sail trosglwyddo ac ati* a'r *nodiadau* am fanylion pellach.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r tudalennau hyn ar gyfer mathau llai cyffredin o incwm, didyniadau a rhyddhad, ac ar gyfer gwybodaeth arall. Cwblhewch y tudalennau hyn os cawsoch:

- log o waratau gilt a gwarantau eraill y DU â chryn ddisgownt ac elw incwm a gronnwyd,
- enillion yswiriant bywyd,
- difidendau stoc, dosbarthiadau anghymwysol a benthyciadau gan gwmnïau caeedig a ddilëwyd,
- derbyniadau ôl-derfynu,
- incwm o gynlluniau cyfranddaliadau,
- cyfandaliadau neu daliadau iawndal gan eich cyflogwr, neu enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU,
- cyfandaliadau trethadwy o gynlluniau pensiwn tramor;

neu os ydych am hawlio

- rhai didyniadau cyflogaeth penodol, er enghraifft didyniad anabledd a gwasanaeth dramor neu Didyniad Enillion Morwyr,
- lwfans pâr priod ar sail oedran,
- rhyddhad treth arall nad yw wedi ei gynnwys ym mhrif ran eich ffurflen dreth.
- rhyddhad am golledion o incwm arall neu ar gyfer masnachu yn 2011-12 neu rhai colledion cyfalaf penodol;

neu os ydych

- yn agored i daliadau treth ar gynilion pensiwn,
- am ddatgelu unrhyw gynlluniau neu drefniadau osgoi treth.

Does dim rhaid i chi ddychwelyd y tudalennau hyn atom ni os nad ydych wedi cofnodi unrhyw beth arnynt. Ond os ydych wedi cwblhau'r tudalennau hyn, yna dychwelwch nhw gyda'ch ffurflen dreth. Os oes angen y nodiadau arnoch ar gyfer *Gwybodaeth ychwanegol* cysylltwch â ni neu gallwch eu lawr lwytho o **www.hmrc.gov.uk**

Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr

Caiff ad-daliadau Benthyciadau sy'n amodol ar incwm eu casglu gennym ni (ar gyfer benthycwyr newydd, o Awst 1998). Byddwch wedi derbyn llythyr oddi wrth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr cyn i chi ddechrau ad-dalu eich benthyciad yn dweud wrthych y dyddiad o ba bryd rydych i ddechrau ad-dalu eich benthyciad. Seilir ad-daliadau sy'n amodol ar incwm ar eich incwm ac nid ar y swm a fenthycwyd. Dyma sy'n gwneud y benthyciad yn un sy'n 'amodol ar incwm'. Yn ychwanegol at hyn daw ad-daliadau'n ddyledus dim ond ar ôl i'ch incwm fynd yn uwch na'r trothwy blynyddol (£15,000 ar hyn o bryd). Cysylltwch â ni os cewch hysbysiad ar ôl i chi ddychwelyd eich ffurflen dreth, sy'n nodi eich bod wedi ad-dalu eich benthyciad yn llawn cyn 1 Ionawr 2012. Os na chawsoch eich hysbysu fod eich benthyciad wedi ei ad-dalu'n llawn ond credwch eich bod yn dod at ddiwedd cyfnod eich benthyciad, dylech gysylltu'n uniongyrchol â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Mae'r manylion cyswllt ar eu gwefan yn **www.studentloanrepayment.co.uk**

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Incwm

Llog a difidendau o fanciau, cymdeithasau adeiladu ac ati yn y DU

Rhaid i chi gynnwys yn eich ffurflen dreth y llog a gewch o gyfrifon banc, cymdeithasau adeiladu a chyfrifon cynilo eraill, ac ar fenthyciadau, oni bai ei fod yn benodol yn annhrethadwy. Gwelir y nodyn islaw ynglŷn ag incwm annhrethadwy sy'n rhaid i chi ei hepgor o'ch ffurflen dreth. Rhaid i chi hefyd gynnwys difidendau o gwmnïau yn y DU ac o ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig neu gwmnïau buddsoddi penagored yn y DU, yn ogystal ag o flwydd-daliadau bywyd a brynwyd.

Mae peth incwm o gynilion a buddsoddiadau yn mynd ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol* a amgaewyd ym mhecyn y ffurflen dreth, ac nid ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth. Mae hwn yn cynnwys:

- llog o warantau'r (giltiau) llywodraeth a bondiau neu nodiadau benthyciadau a ddyroddir gan gwmnïau yn y DU
- elw ar warantau a ddyroddir am bris gostyngol neu a ad-delir gyda phremiwm
- symiau o fewn y cynllun incwm cronedig
- difidendau stoc a difidendau anghymwysol
- enillion ar bolisïau yswiriant bywyd.

Ceir rhai rheolau cyffredinol sy'n gymwys i'ch holl log ac incwm ar ffurf difidend.

Cynilion a buddsoddiadau ar y cyd

Fel arfer y rheol yw – cynhwyswch **eich cyfran chi** o'r incwm yn unig.

Parau priod a phartneriaid sifil

Fel arfer caiff incwm o fuddsoddiadau a ddelir ar y cyd eu trin fel petaent yn berchen i'r ddau ohonoch mewn cyfrannau cyfartal, a chaiff bob un ohonoch ei drethu ar hanner yr incwm. Fodd bynnag, os delir y buddsoddiadau mewn cyfrannau anghyfartal, ac mae gennych hawl i'r incwm yn y cyfrannau hynny, gallwch ddewis gael eich trethu ar y sail honno – os ydych am wneud y dewis, yna cysylltwch â ni. (Bydd cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu ar y cyd yn cael ei dal fel 'perchnogion llesiannol ar y cyd', felly oni bai eich bod wedi newid yn gyfreithiol sail cadw'r cyfrif, ni ellwch wneud dewis o'r fath ar gyfer y cyfrifon hyn).

Os ydych yn dal cyfranddaliadau ar y cyd gyda'ch priod neu eich partner sifil mewn cwmni caeëdig (byddwch yn gwybod os ydy hyn yn berthnasol i chi), caiff incwm y difidend ei drethu mewn cyfrannedd i'ch hawliad (efallai na fydd hwn yn 50:50).

Enwebeion ac ymddiriedolaethau gwag

Os bydd enwebai yn derbyn incwm, ar eich rhan, neu os ydych yn fuddiolwr ymddiriedolaeth wag (bare trust) (hynny yw, mae gennych hawl di-oed ac absoliwt i gyfran o incwm neu gyfalaf yr ymddiriedolaeth) dylech gofnodi'r llog a'r difidendau ym mlychau 1 i 4 fel y bo'n briodol ar dudalen TR 3 – nid ar y tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati*.

Incwm sy'n codi o roddion a roddwyd i'ch plant

Os rhoddoch rodd yn y flwyddyn dreth hon neu flynyddoedd cynharach i unrhyw un o'ch plant sydd o dan 18 oed, ac mae'r rhoddion hynny yn cynhyrchu incwm o £100 neu ragor (cyn treth) mewn blwyddyn dreth, rhaid i chi gynnwys yr incwm llawn hwnnw yn eich ffurflen dreth.

Derbyniadau ariannu amgen

Os oes gennych fuddsoddiad mewn banc neu gymdeithas adeiladu sydd, yn lle talu llog, yn talu enillion o fath gwahanol (efallai bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu yn galw'r taliad hwn yn enillion ariannu amgen neu enillion rhannu elw), dylech gynnwys y taliad a gewch ym mlwch 1 ar dudalen TR 3 os cafodd ei drethu neu flwch 2 os na chafodd ei drethu. Pan fo'r ffurflen dreth a'r arweiniad hwn yn sôn am log, mae'n cynnwys derbyniadau ariannu amgen hefyd.

Blwydd-daliadau bywyd a brynwyd

Os oes gennych incwm o flwydd-daliadau bywyd a brynwyd, dylech gynnwys hwn ym mlwch 1 ar dudalen TR 3. Dim ond rhan o'r taliad a gewch fydd yn incwm – gwiriwch eich tystysgrifau tâl – peidiwch â rhoi gweddill y taliad ar eich ffurflen dreth. Nid yw blwydd-dal bywyd a brynwyd yn flwydd-dal ymddeol, nac ychwaith yn ganlyniad cyfraniadau a dalwyd i gynllun pensiwn personol.

Byddwch fel arfer yn derbyn yr incwm o'ch blwydd-daliadau bywyd a brynwyd ar ôl i'r talwr ddidynnu treth. Nodwch swm net y taliad incwm ym mlwch 1.

Eithriwch y canlynol o'ch ffurflen dreth:

- llog neu ddifidendau neu fonysau a gafwyd o fuddsoddiadau a eithriwyd rhag treth (er enghraifft, ISAs a Thystysgrifau Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol)
- llog a bonysau terfynol o gynlluniau Cynilo Wrth Ennill
- gwobrau Bondiau Premiwm, Y Loteri Genedlaethol a hapchwarae
- llog a ddyfarnwyd gan lys yn y DU fel rhan o ddyfarniad iawndal am anaf personol neu farwolaeth
- llog ar Dystysgrifau Cynilion Ulster (os ydych fel arfer yn byw yng Ngogledd Iwerddon ac yn byw yno pan brynoch y tystysgrifau neu pan gawsant eu had-dalu)
- Lwfansau mabwysiadu a delir o dan ddarpariaethau Rheoliadau Lwfans Mabwysiadu 1991 neu gynlluniau a gymeradwywyd gan Ysgrifennydd Gwladol Yr Alban o dan Adran 51 Deddf Mabwysiadu (Yr Alban) 1988.

Llog y DU ac ati

Rhaid i chi gynnwys ym mlwch 1 neu flwch 2 ar dudalen TR 3 eich ffurflen dreth, llog a dosbarthiadau llog a gafwyd o:

- banciau a chymdeithasau adeiladu (gan gynnwys cyfrifon ar y rhyngrwyd) – cyfrifon cyfredol a chadw
- ymddiriedolaethau unedol awdurdodedig a chwmnïau buddsoddi penagored ac ymddiriedolaethau buddsoddi yn y DU
- cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
  - pan ddidynnir treth cyn i chi ei dderbyn (megis Bondiau Incwm Gwarantedig neu Dwf ar gyfradd sefydlog) a
  - pan na fydd treth wedi ei ddidynnu (Bondiau Incwm, Cyfrifon Buddsoddi a Chyfrifon Cynilion Easy Access) ond dylech eithrio
  - llog cronedig ar Dystysgrifau Cynilion (gan gynnwys tystysgrifau wedi'u cysylltu â mynegai) a
  - llog ar Fondiau Bonws Plant.
- tystysgrifau adneuon treth
- benthyciadau i unigolion a mudiadau gan gynnwys benthyciadau 'cyfoed i gyfoed'
- undebau credyd a chymdeithasau cyfeillgar
- Ymddiriedolaethau Ardaloedd Menter (dylid cynnwys y rhenti yn y tudalennau *Eiddo yn y DU*).

Peidiwch â chynnwys llog o warantau llywodraeth y DU (giltiau), neu log o fondiau, nodiadau benthyg neu warantau tebyg a ddyroddwyd gan gwmnïau yn y DU. Dylech nodi hwn ym mlychau 1 i 3 ar y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*. Ond dylai llog o fondiau cynilo a ddyroddwyd gan fanciau a chymdeithasau adeiladu, ac na allwch eu masnachu ar y farchnad agored, gael eu cofnodi ym mlwch 1 neu flwch 2 ar dudalen TR 3 yn y brif ffurflen dreth.

Blwch 1 *Llog ac ati y DU a drethwyd – y swm net ar ôl didynnu treth*

Byddwch fel arfer yn derbyn eich llog ac ati ar ôl i'r talwr ddidynnu treth (ar 20%), er enghraifft y banc neu'r gymdeithas adeiladu neu reolwr ymddiriedolaeth unedol. Yr hyn sydd ei angen ym mlwch 1 yw'r swm net – hynny yw, y llog ac ati ar ôl didynnu treth – sef y swm a gynyddodd eich arian yn y cyfrif.

Os yw cyfanswm eich incwm (gan gynnwys llog) yn is na'ch Lwfans Personol rhydd o dreth o £6,475 (os ydych o dan 65 oed) gallwch gofrestru i gael eich llog ac ati wedi ei dalu heb ddidynnu treth. Ffoniwch y llinell gyswllt Gymraeg a gofynnwch am ffurflen R85.

Gallai cyfriflenni banc neu lyfrau cyfrif cymdeithasau adeiladu neu dalebau electronig gan ymddiriedolaeth unedol awdurdodedig, cwmnïau buddsoddi penagored neu gwmnïau ymddiriedolaeth fuddsoddi ddisgrifio hwn mewn ffordd wahanol. Gallai eich cyfriflen ddangos tri swm – 'llog gros', 'treth a ddidynnwyd' a 'llog net'. Os felly, mae'n fater syml o gopïo'r ffigur llog net a'i nodi ym mlwch 1. Ond bydd rhai talwyr yn dangos y llog gros a'r dreth a ddidynnwyd. Y llog net yw'r hyn a gewch pan fyddwch yn tynnu'r 'dreth a ddidynnwyd' o'r llog gros. Mae rhai talwyr yn dangos 'llog net' yn unig ar eich cyfriflen ac felly'r unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw nodi'r ffigur hwnnw ym mlwch 1. (Dylid anfon allbrintiadau o dalebau electronig gyda'ch ffurflen dreth os ydych am hawlio ad-daliad o'r dreth a ddidynnwyd.)

Os oes gennych fwy nag un cyfrif, ychwanegwch ffigurau eich holl log net ac ati, at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 1.

Blwch 2 *Llog y DU ac ati heb ei drethu – symiau nas trethwyd o gwbl*

Os oes gennych gyfrif sy'n talu llog ac ati i chi heb fod y talwr yn didynnu treth o gwbl – 'cyfrif sy'n talu'n gros' – nodwch y swm hwnnw sydd heb ei drethu ym mlwch 2. (Peidiwch â defnyddio'r blwch hwn ar gyfer ffigur gros y ffigur a nodwyd ym mlwch 1 – os gwnewch hyn, cewch eich trethu ddwywaith ar yr un incwm.) Os cewch log heb ei drethu ar fenthyciad y gwnaethoch i rywun (gan gynnwys aelod o'r teulu) dylech ei gynnwys ym mlwch 2 hefyd.

Os mai eich unig incwm tramor oedd llog tramor heb ei drethu (hyd at £2,000), gallwch ddefnyddio blwch 2 i nodi'r wybodaeth hon yn hytrach na chwblhau'r tudalennau *Tramor*.

Os ydych wedi nodi unrhyw log tramor ym mlwch 2, yna ychwanegwch nodyn yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 eich ffurflen dreth, i ddangos symiau llog y DU a llog tramor heb eu trethu, a gafwyd.

Difidendau'r DU

Blwch 3 *Difidendau gan gwmnïau yn y DU* – peidiwch â chynnwys y credyd treth

Bydd eich taleb ddifidend yn dangos daliad eich cyfranddaliadau yn y cwmni, y gyfradd ddifidend, y credyd treth a'r difidend sy'n daladwy. Byddwch yn cael yr wybodaeth hon hyd yn oed os telir eich difidend yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu drwy eich brocer buddsoddi. Yr unig ffigur sydd angen i chi ei nodi ar eich ffurflen dreth yw cyfanswm yr holl daliadau difidend – peidiwch ag ychwanegu'r credydau treth.

Dylech gynnwys yma'r holl ddifidendau o gyfranddaliadau a gawsoch drwy gynlluniau cyfranddaliadau cyflogeion. Mae un eithriad i hyn sef difidendau a ddefnyddir i brynu rhagor o gyfranddaliadau drwy gynllun Annog Perchenogaeth cyfranddaliadau a gymeradwywyd, er efallai y bydd yn rhaid i chi eu cynnwys os cymerwch y cyfranddaliadau hynny allan o'r cynllun o fewn tair blynedd. Os nad ydych yn siŵr ewch i **www.hmrc.gov.uk/shareschemes** neu cysylltwch â ni.

Gelwir dosbarthiadau a delir gan Ymddiriedolaethau Buddsoddi mewn Eiddo Diriaethol yn y DU (UK-REITs) neu Gronfeydd Buddsoddi Awdurdodedig mewn Eiddo (PAIFs) allan o elw rhydd o dreth yr UK-REIT yn Ddosbarthiadau Incwm o Eiddo. Y swm a drethir yw swm llawn y Dosbarthiadau Incwm o Eiddo. Dylech nodi hwn ym mlwch 16 a'r dreth a ddidynnwyd ym mlwch 18. Mae hwn yn gymwys i Ddosbarthiadau Incwm o Eiddo a dalwyd ar ffurf arian parod ac i Ddosbarthiadau Incwm o Eiddo a dalwyd drwy ddyroddi difidendau stoc.

Os oes gennych gyfranddaliadau mewn cwmni a wnaeth ddyroddiad hawlddewis (rights issue), ac rydych wedi derbyn taliad am iawndal am beidio â chymryd eich hawliad o dan y dyroddiad hawlddewis, peidiwch â chynnwys y taliad yma. Ychwanegwch y taliad at unrhyw ennill trethadwy arall a gwiriwch p'un a ddylech fod yn llenwi'r tudalennau *Crynodeb o enillion cyfalaf*.

Peidiwch â chynnwys unrhyw ddifidendau stoc neu ddifidendau anghymwysol. Dylech nodi'r rhain ar y tudalennau *Gwybodaeth Ychwanegol*.

Difidendau gan gwmnïau a effeithiwyd gan reolau cwmnïau gwasanaeth

Os cewch eich effeithio gan reolau cwmnïau gwasanaeth (gweler tudalen TRG 21) ac mae'r cwmni wedi gwneud cais fel na fydd y difidendau yn drethadwy arnoch chi ac rydym wedi cymeradwyo'r cais hwnnw, gallwch hepgor y difidendau hynny o'ch ffurflen dreth. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yna cysylltwch â ni.

Difidendau a gynhyrchir

Os ydych yn derbyn ac yn cynhyrchu difidendau rhowch fanylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' blwch 19 ar dudalen TR 6; peidiwch â chynnwys y difidendau yma.

Blwch 4 *Difidendau eraill – peidiwch â chynnwys y credyd treth*

Dylech gynnwys yma dosbarthiadau difidendau gan ymddiriedolaethau unedol, cwmnïau buddsoddi penagored, ac ymddiriedolaethau buddsoddi (gweler o dan 'Llog ac ati'r DU' ar dudalen TRG 8 os cewch ddosbarthiad llog o unrhyw un o'r rhain).

Nodwch y difidendau fel y maent yn ymddangos ar eich taleb ddifidend; peidiwch ag ychwanegu'r credyd treth. Os oes gennych unedau neu gyfranddaliadau cronni caiff y difidend ei ail-fuddsoddi'n awtomatig ond mae'n rhaid i chi gynnwys y difidend ym mlwch 4 o hyd.

Peidiwch â chynnwys unrhyw swm a nodwyd 'cyfartaliad' (equalisation). Mae'r swm hwn yn ad-daliad cyfalaf (a dylid ei ddidynnu o gost yr unedau neu'r cyfranddaliadau pan fyddwch yn cyfrifo enillion cyfalaf).

Blwch 5 *Difidendau tramor (hyd at £300)*

Os mai'r unig incwm tramor a gawsoch oedd difidendau a drethwyd, gallwch eu nodi ym mlwch 5 (yn hytrach na chwblhau'r tudalennau *Tramor*) – ond dim ond credyd treth sylfaenol (10%) a roddir i chi pan fyddwn yn prosesu eich ffurflen dreth. Nodwch gyfwerth y difidend a'r dreth dramor a ddidynnwyd mewn sterling ym mlwch 6.

Mathau eraill o incwm a gynhwyswyd ym mlychau 1 i 6

Cymryd drosodd, cydsoddi a thrawsnewid cymdeithasau adeiladu

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth os cawsoch arian o ganlyniad i gydsoddiad rhwng dwy neu fwy o gymdeithasau adeiladu, neu os cawsoch arian neu gyfranddaliadau yn dilyn cymryd drosodd cymdeithas adeiladu neu drawsnewid cymdeithas adeiladu yn gwmni. Gallai'r gymdeithas adeiladu ddweud wrthych os bydd treth i'w thalu ond os bydd angen cymorth arnoch, yna cysylltwch â ni.

Os bydd y taliad yn agored i Dreth Incwm dylech ei gynnwys ym mlwch 1. Os nad ydych yn siŵr dylech ei gynnwys ym mlwch 16 gan roi manylion ym mlwch 19 ar dudalen TR 6. Os yw'n agored i Dreth Enillion Cyfalaf dylech ei ychwanegu at unrhyw enillion cyfalaf trethadwy eraill a gwirio p'un a ddylech gwblhau tudalennau *Crynodeb o Enillion Cyfalaf* (gweler tudalen TR 2 yn eich Ffurflen Dreth a thudalen TRG 5 y Canllaw hwn).

Trosglwyddo'r hawl i dderbyn incwm

Os gwerthwch neu os trosglwyddwch hawl i ddifidend cyn 22 Ebrill 2009 ond nid ydych yn gwaredu'r warant sylfaenol, caiff yr incwm hwnnw a drosglwyddir gennych ei drin fel eich incwm eich hun a dylid ei gynnwys ym mlwch 3.

Os gwerthwch neu os trosglwyddwch hawl i ddifidend o 22 Ebrill 2009 ymlaen heb waredu'r ased y mae'r incwm yn deillio ohono, caiff y gydnabyddiaeth y gellir ei derbyn am y trosglwyddiad ei thrin fel eich incwm chi a dylid ei gynnwys yn y blwch lle byddai'r incwm wedi ei gofnodi petai heb ei drosglwyddo. Os ydy gwerth marchnad

yr hawl yn fwy o lawer na'r gydnabyddiaeth a geir, yna caiff gwerth marchnad yr hawl (yn hytrach na'r gydnabyddiaeth) ei drin fel eich incwm a dylid ei gynnwys yn y blwch lle byddai'r incwm wedi ei gofnodi petai e heb gael ei drosglwyddo.

Pensiynau a blwydd-daliadau'r DU a budd-daliadau eraill y Wladwriaeth a gawsoch

I gael mwy o wybodaeth ynghylch beth sy'n incwm trethadwy a'r hyn nad yw'n incwm trethadwy ewch i'n gwefan **www.hmrc.gov.uk/incometax/taxable-income.htm**

Peidiwch â chynnwys Lwfans Gweini mewn unrhyw fan ar eich ffurflen dreth

Dylech eithrio'r canlynol o flychau 7 i 12

- Lwfans gweini, taliad profedigaeth, lwfans byw i'r anabl
- Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- ychwanegiadau at Bensiynau'r Wladwriaeth neu at fudd-daliadau o ganlyniad i blant dibynnol
- lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm
- grant Ceisydd Gwaith
- lwfans hyfforddi'r Fargen Newydd (ond dylid cynnwys cyflog o dan y Fargen Newydd ar y tudalennau *Cyflogaeth*)
- Taliadau Ardal Gyflogaeth
- Lwfans Mamolaeth
- pensiwn gweddwon rhyfel a rhai pensiynau eraill a delir i ddibynyddion eraill personél ymadawedig y Lluoedd Arfog a'r Llynges Fasnach. (Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth ynglŷn â gostyngiadau yn y pensiynau hyn neu pan na chânt eu talu oherwydd bod pensiwn neu fudd-dal arall yn cael ei dalu)
- pensiynau a thaliadau eraill oherwydd anabledd, anaf neu salwch a achoswyd gan wasanaeth milwrol
- pensiynau tramor (dylai'r rhain fynd ar y tudalennau *Tramor*).

Blwch 7 *Pensiwn y Wladwriaeth*

Cewch eich trethi ar 'swm llawn' Pensiwn y Wladwriaeth y mae hawl gennych ei gael am y flwyddyn i 5 Ebrill 2011, sef cyfanswm eich hawliadau wythnosol. Oherwydd y gellir talu Pensiwn y Wladwriaeth yn wythnosol, pob 4 wythnos neu'n chwarterol ar ffurf ôl-daliadau, **mae'n annhebygol y bydd cyfanswm eich hawliad yr un peth â'r taliadau a gawsoch mewn gwirionedd yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2011.**

I ganfod eich hawliad wythnosol i Bensiwn y Wladwriaeth, gallwch ddefnyddio'r llythyr 'Ynglŷn â'r cynnydd cyffredinol mewn budd-daliadau' a anfonwyd gan y Gwasanaeth Pensiwn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2010-11. Mae'r llythyr hwn yn sôn wrthych am eich hawliad wythnosol i Bensiwn y Wladwriaeth o 12 Ebrill 2010.

Fodd bynnag, os yw swm Pensiwn y Wladwriaeth a gewch wedi newid rhwng 12 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2011 (er enghraifft, o ganlyniad i newid yn eich amgylchiadau) yna bydd y Gwasanaeth Pensiwn wedi anfon llythyr atoch yn nodi eich hawliad wythnosol newydd. Gallwch ddefnyddio'r 'llythyr hawliad' newydd hwn i ganfod eich hawliad wythnosol am weddill y flwyddyn. Mae'r ddau lythyr hyn hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r rhannau sydd wedi eu cynnwys yn eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Os nad yw'r llythyr(on) priodol gennych, yna ffoniwch y Gwasanaeth Pensiwn ar **0845 606 0275** (Cymraeg) neu **0845 606 0265** (Saesneg) (Ffôn testun **0845 606 0285**) a gofynnwch am ffurflen BR735 'Datganiad Pensiwn' am y cyfnod 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011.

Os cawsoch Bensiwn y Wladwriaeth am y flwyddyn gyfan o 5 Ebrill 2011, er mwyn cyfrifo'r swm llawn yr oedd gennych hawl iddo am y flwyddyn, lluoswch eich hawliad wythnosol gyda 52. Os newidiodd eich hawliad wythnosol yn ystod y flwyddyn bydd angen i chi luosi pob swm gyda nifer yr wythnosau y cawsoch y swm hwnnw hyd at uchafswm o 52 wythnos. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011, os cawsoch eich talu'n wythnosol neu bob 4 wythnos ac roedd eich diwrnod talu ar ddydd Mawrth, bydd angen i chi ychwanegu un wythnos ychwanegol o bensiwn at y swm a gyfrifwyd fel uchod oherwydd roedd 53 dydd Mawrth yn y flwyddyn dreth lawn.

Os cawsoch Bensiwn y Wladwriaeth am ran o'r flwyddyn, bydd angen i chi gyfrif nifer yr wythnosau o'r dyddiad y dechreuodd eich Pensiwn y Wladwriaeth tan 5 Ebrill 2011 a lluosi hwn gyda'r hawliad wythnosol er mwyn cyfrifo cyfanswm eich hawliad am y flwyddyn dreth hon.

Fel canllaw i gyfanswm eich hawliadau wythnosol am flwyddyn gyfan, os cawsoch eich talu:

- yn wythnosol - adiwch at ei gilydd y 52 swm wythnosol fel y'u dangosir ar eich cyfriflen banc neu baslyfr eich cymdeithas adeiladu (os cawsoch eich talu trwy ddebyd uniongyrchol)
- bob 4 wythnos - lluoswch y swm a gewch bob 4 wythnos gyda 13
- yn chwarterol - lluoswch y swm chwarterol gyda 4.

Darllenwch y nodyn ar gyfer blwch 15 ar dudalen TRG 14 i weld pa Bensiynau'r Wladwriaeth ddylid eu nodi ym mlwch 15, nid ym mlwch 7.

Yn ogystal â Phensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a gawsoch, dylai'r ffigur ym mlwch 7 gynnwys:

- unrhyw bensiwn graddedig
- ychwanegiad oedran os ydych dros 80
- ychwanegiadau a delir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i godi cyfradd pensiwn ag isafswm gwarantedig
- unrhyw ychwanegiad ar gyfer oedolyn dibynnol
- unrhyw bensiwn ychwanegol a delir oherwydd eich bod wedi gohirio derbyn neu wedi rhoi i fyny dros dro eich Pensiwn y Wladwriaeth, a
- os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth sy'n daladwy i chi o ganlyniad i gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich priod neu eich partner sifil.

Ni ddylai'r ffigur gynnwys:

- unrhyw ychwanegiad am blentyn dibynnol
- y bonws Nadolig blynyddol, neu
- Taliad am Danwydd Gaeaf

gan nad ydynt yn agored i dreth.

Blwch 8 *Cyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth*

Os gwnaethoch oedi cyn hawlio Pensiwn y Wladwriaeth am o leiaf 12 mis yn olynol (gyda'r cyfnod i gyd yn disgyn ar ôl 6 Ebrill 2005) a dewisoch dderbyn cyfandaliad unigol o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod 2010-11, yna nodwch y taliad cyn iddo gael ei drethu ym mlwch 8 (y swm gros). Nodwch y dreth a ddidynnwyd o'r taliad ym mlwch 9.

Blwch 10 *Pensiynau (heblaw am Bensiwn y Wladwriaeth), blwydd-daliadau ymddeol a mân daliadau trethadwy*

Bydd talwr eich pensiwn yn rhoi P60 (Tystysgrif diwedd blwyddyn) neu ddatganiad tebyg i chi. Ychwanegwch at ei gilydd holl bensiynau'r DU (ac eithrio Pensiwn y Wladwriaeth) yn ogystal â blwydd-daliadau ymddeol gan gynnwys y rheiny:

- gan eich cyflogwr chi neu gyflogwr eich diweddar ŵr, wraig neu bartner sifil
- o gynlluniau pensiwn personol a chynlluniau pensiwn cyfranddeiliad
- a delir fel pensiynau heb eu gwarantu (tyniadau incwm) o unrhyw fath o gynllun pensiwn cofrestredig
- o gynlluniau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd)
- am anafiadau yn y gwaith neu ar gyfer salwch sy'n gysylltiedig â gwaith
- o ganlyniad i wasanaeth yn y lluoedd arfog (gan gynnwys Taliadau Incwm Gwarantedig i un sy'n Goroesi o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog ar gyfer gweddwon, gŵyr gweddw, partneriaid neu bartneriaid sifil sy'n goroesi personél ymadawedig y gwasanaethau)
- o gontractau blwydd-dal ymddeol neu gynlluniau ymddiriedolaeth (ond dylid nodi blwydd-daliadau bywyd a brynwyd ym mlwch 1 ar dudalen TR 3)
- rhannau trethadwy cyfandaliadau a gawsoch yn lle pensiwn bach ('taliad dibwys' neu 'cyfandaliad dibwys').

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Ym mlwch 10 nodwch y swm cyn didynnu unrhyw dreth (llai unrhyw ddidyniad o 10% os yn briodol – gweler isod).

Ym mlwch 19 ar dudalen TR 6, rhowch fanylion talwyr pensiwn a/neu flwydd-daliadau, cyfeirnod TWE, cyfeirnod y pensiwn/blwydd-daliadau, y taliad a gafwyd a'r dreth a ddidynnwyd. Bydd yr wybodaeth hon yn ein caniatáu i wneud y defnydd gorau o'ch lwfansau treth er mwyn cyfrifo eich cod treth TWE am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012.

Os ydych yn derbyn pensiwn o ganlyniad i ymddeoliad oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â gwaith neu anaf yn y gwaith, ac mae eich pensiwn yn fwy na'r hyn y byddai wedi bod petaech wedi ymddeol, ar yr un adeg am resymau iechyd na chawsant eu hachosi gan eich gwaith, nid yw'r swm ychwanegol yn drethadwy. (Nid yw hwn yn gymwys i unrhyw bensiwn a delir o dan gynllun pensiwn cofrestredig.)

Didyniad o 10%

Os cewch bensiwn y DU am gyn wasanaeth i lywodraeth dramor, dim ond 90% o'r pensiwn sylfaenol fydd yn drethadwy yn y DU, os bydd rhai amodau'n gymwys. Rhaid i'r pensiwn gael ei dalu:

- gan neu drwy unrhyw adran gyhoeddus, swyddog neu asiant llywodraeth y diriogaeth dramor
- i berson a gyflogwyd yng ngwasanaeth y Goron neu mewn gwasanaeth o dan lywodraeth y diriogaeth dan sylw (neu weddw, gŵr gweddw, partner sifil sydd wedi goroesi, plentyn, perthynas neu ddibynnydd y person hwnnw.)

Y tiriogaethau dan sylw yw:

- unrhyw wlad sy'n ffurfio rhan o deyrnasoedd Ei Mawrhydi
- unrhyw wlad o fewn y Gymanwlad (ac eithrio'r DU)
- unrhyw diriogaeth a ddiogelir gan Ei Mawrhydi.

Efallai y cewch fwy na'r pensiwn sylfaenol ond y swm sylfaenol yn unig sy'n gymwys am y didyniad o 10%.

Blwch 11 *Treth a ddidynnwyd o flwch 10*

Nodwch gyfanswm y dreth a ddidynnwyd o'r holl bensiynau ac ati ym mlwch 11. Os bydd eich P60 (neu dystysgrif diwedd blwyddyn cyfatebol) yn dangos bod treth wedi ei ad-dalu i chi, rhowch arwydd minws o flaen y ffigurau treth yn y blwch a ddarparwyd.

Blwch 12 *Budd-dal Analluogrwydd Trethadwy a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau*

Nid yw pob budd-dal analluogrwydd yn drethadwy. Nid yw'n drethadwy yn y 28 wythnos gyntaf yr analluogrwydd. Nid yw'n drethadwy ychwaith os dechreuodd yr analluogrwydd cyn 13 Ebrill 1995 a phan fyddai Budd-dal Analluedd wedi bod yn daladwy yn flaenorol.

Mae'r P60(IB) a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (erbyn 31 Mai 2011) yn dweud wrthych faint o'ch budd-daliadau sy'n drethadwy. Os peidioch â hawlio cyn 5 Ebrill 2011 byddwch wedi cael naill ai ffurflen P45(IB)(Rhan 1A) neu P45(Rhan 1A)(IB)(O); dangosir y swm trethadwy ar y naill ffurflen neu'r llall yn ogystal â'r dreth a ddidynnwyd (i'w nodi ym mlwch 13).

Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau i gyd yn drethadwy. Mae'r P60(U) a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn (erbyn 31 Mai 2011) yn rhoi'r swm trethadwy. Os gwnaethoch beidio â hawlio cyn 5 Ebrill 2011, dangosir y swm trethadwy ar y ffurflen P45(U) a roddwyd i chi pan ddaeth eich hawliad i ben. Ni ddidynnir treth o'r taliadau a gewch.

Blwch 14 *Lwfans Ceisio Gwaith*

Nodwch swm trethadwy'r Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r ffigur hwn i'w weld ar y P60(U) a roddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (erbyn 31 Mai 2011). Os gwnaethoch beidio a hawlio cyn 5 Ebrill 2011, dangosir y swm trethadwy ar y ffurflen P45(U) a roddwyd i chi pan ddaeth eich hawliad i ben. Ni ddidynnir treth o'r taliadau a gewch.

Blwch 15 *Cyfanswm unrhyw Bensiynau'r Wladwriaeth neu fudd-daliadau eraill*

Cysylltwch
Dylech eithrio o flwch 15 unrhyw symiau ychwanegol ar gyfer plentyn dibynnol neu lwfans plant

Cynhwyswch ym mlwch 15:
- Pensiwn Gweddwon neu Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Mam Weddw neu Lwfans Rhiant Gweddw
- Pensiwn Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Gofalwr
- Tâl Salwch, Tâl Mamolaeth, Tâl Tadolaeth a Thâl Mabwysiadu Statudol – ond dim os telir y rhain gennym ni (os cafodd ei dalu gan eich cyflogwr dylech ei gynnwys ar y dudalen *Cyflogaeth*).

Incwm arall y DU nas cynhwyswyd ar dudalennau atodol

Blwch 16 *Incwm trethadwy arall*

Mae llawer iawn o fathau o incwm y gellir eu cynnwys ym mlwch 16; dyma rhai enghreifftiau'n unig:
- enillion achlysurol
- comisiwn
- incwm llawrydd
- Dosbarthiadau Incwm o Eiddo (PID) sy'n deillio o Ymddiriedolaethau Buddsoddi mewn Eiddo Diriaethol yn y DU (UK-REITs) a Chronfeydd Buddsoddi mewn Eiddo Awdurdodedig (PAIF) gan gynnwys PID a dalwyd drwy ddyroddi difidendau stoc
- derbyniadau busnes pan fo'ch busnes wedi dod i ben, er enghraifft
  - dyledion drwg a adenillwyd, neu
  - breindaliadau ar gyfer cytundebau a wnaed tra roedd y busnes yn dal i gael ei gynnal, neu
  - derbyniadau i'w cyfrif yn dilyn newid mewn arfer cyfrifyddu na fyddai fel arall yn cael eu trethu yn ystod oes eich busnes
- taliadau o dan bolisi yswiriant personol ar gyfer salwch neu fudd-daliadau anabledd os ydych yn parhau i gael eich cynnwys o dan gynllun yswiriant iechyd parhaol cyn gyflogwr. (Os oeddech wedi cyfrannu at y premiymau a dalwyd gan eich cyn gyflogwr, caiff y buddiannau sy'n deillio o'ch cyfraniadau eu heithrio)
- incwm a gafwyd neu sy'n cael ei drin fel incwm a gafwyd o ymddiriedolaethau unedol heb eu hawdurdodi
- taliadau blynyddol trethadwy.

Efallai y bydd treth wedi ei didynnu o rai mathau o daliadau gan y person sy'n talu. Os felly, dylech nodi swm llawn y taliad ym mlwch 16, a swm y dreth a ddidynnwyd ym mlwch 18.

Yn gyffredinol, os nad ydych yn siŵr pa incwm gellir ei gynnwys yma, yna cysylltwch â ni. **Ni ddylai'r** adran hon gael ei defnyddio ar gyfer incwm (neu enillion) y dylid eu cofnodi ar dudalennau atodol.

Blwch 17 *Cyfanswm y treuliau caniataol*

Treuliau caniataol yw'r rheiny:
- roedd yn rhaid eu gwario dim ond er mwyn ennill yr incwm
- na chawsant eu gwario am resymau preifat neu bersonol
- na chawsant eu gwario ar eitemau cyfalaf fel cyfrifiadur.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Os yw'r treuliau yn uwch na'r incwm y canlyniad fydd colled y gellir ei chario ymlaen i flwyddyn ddilynol. Gellir gosod rhai colledion yn erbyn mathau eraill o incwm y byddwch efallai wedi eu cynnwys ym mlwch 16. Ceir rheolau ynghylch gwrthbwyso'r colledion hyn; mae Taflen Gymorth 325 *Other taxable income* yn esbonio'r hyn y gellir ei wrthbwyso.

Blwch 19 *Budd o asedion yr oeddech yn berchen arnynt yn flaenorol*

Mae blwch 19 yn cyfeirio at y Dreth Incwm a godir ar fuddiannau a gawsoch pan oeddech yn berchen neu wedi cyfrannu at gaffael eiddo (eiddo roeddech yn berchen arnynt eisoes). I weld enghreifftiau ychwanegol o'r math o fudd a allai arwain at godi treth, darllenwch yr arweiniad POAT ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk/poa/poa-guidance1.htm#11**

Mae eiddo yma'n golygu tir ac adeiladau, eiddo personol (er enghraifft, gweithiau celf, dodrefn neu hynafolion, ceir neu gychod hwylio) neu unrhyw beth arall a gedwir mewn setliad heblaw am dir ac eiddo personol.

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth os byddwch yn bodloni'r ddau amod canlynol.
Yr amod cyntaf yw eich bod yn ystod 2010-11:
- wedi meddiannu tir heb dalu rhent llawn y farchnad ar ei gyfer, neu
- wedi defnyddio neu fwynhau eiddo personol heb dalu'n llawn am y budd a gawsoch, neu
- y gallech fod wedi cael budd o eiddo setledig ond nid oes gennych hawl i dderbyn yr incwm.

Yr ail amod yw eich bod ar ryw adeg ers 17 Mawrth 1986:
- yn berchen ar yr eiddo rydych bellach yn elwa ohono, neu
- yn berchen ar ac wedi gwaredu eiddo arall ac wedi defnyddio derbyniadau'r gwarediad hwnnw i gaffael yr eiddo rydych bellach yn elwa ohono, neu
- wedi rhoi eiddo i rywun arall, gan gynnwys arian parod, a gwnaethon nhw ei ddefnyddio i gaffael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yr eiddo rydych chi bellach yn elwa ohono. (Sylwer bod 'wedi rhoi' yn cynnwys gwerthu neu werthu'n rhannol i barti cysylltiol a gwerthiannau am lai na'r gwerth go iawn.)

Swm y budd yw:
- (ar gyfer tir ac adeiladau) y rhent blynyddol ar y farchnad agored y gallech ei gael petaech yn gosod y tir (gan gynnwys adeiladau), a/neu
- (ar gyfer asedion eraill) 4% o werth cyfalaf eiddo personol ac asedion eraill.

Y gyfradd rhagnodedig yw'r gyfradd log swyddogol ar ddyddiad y prisiad, sef 4% ar gyfer 2010-11. Y rhent blynyddol ar y farchnad agored am dir neu werth cyfalafol eiddo personol yw'r ffigur a oedd yn gymwys pan fu'n rhaid i chi dalu treth mewn perthynas ag asedion, yr oeddech yn berchen arnynt yn flaenorol, am y tro cyntaf. Mae'r gwerth hwnnw yn gymwys ar gyfer y bum mlynedd dreth nesaf. Os gwnaethoch ddechrau talu treth mewn perthynas ag asedion roeddech yn berchen arnynt yn flaenorol yn 2005-06, bydd yn rhaid i chi ailsefydlu'r rhent blynyddol ar y farchnad agored neu werth cyfalafol eiddo personol, fel yr oedd ar 6 Ebrill 2010. Rhaid gwneud hyn i gael y prisiad i'w ddefnyddio ar gyfer 2010-11 tan 2014-15. Os yw'r budd yn codi o ganlyniad i setliad, rhaid i'r gwerth cyfalafol gael ei sefydlu ar ddechrau pob blwyddyn dreth.

Os gwnaethoch waredu neu gyfrannu at ran o'r eiddo yn unig rydych bellach yn elwa ohono, neu os gwnaethoch elwa am ran o'r flwyddyn yn unig neu os ydych yn para i ddal gafael ar yr eiddo, gostyngir y tâl.

Dylech ddangos yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 sut wnaethoch gyfrifo'r buddiant neu'r tâl rydych ar fin nodi yma ym mlwch 19.

Os ydy'r buddiant yn deillio o setliad a thalwyd treth ar incwm y setliad, didynnwch y dreth honno o'r budd rydych yn nodi ym mlwch 19 a rhowch fanylion llawn ym mlwch 19 ar dudalen TR 6.

Ni fydd yn rhaid i chi dalu'r Dreth Incwm a godir ar y budd:

- os gallai'r eiddo rydych bellach yn elwa ohono fod yn agored i Dreth Etifeddiant pan fyddwch farw (sy'n cynnwys 'rhoddion â budd amodol' at ddibenion Treth Etifeddiant), neu
- os ydy cyfanswm y budd am y flwyddyn yn £5,000 neu lai, (mae'r prisiad y seilir y budd arno yn parhau'n ddilys am bum mlynedd), neu
- os rhoesoch arian parod a ddefnyddiwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ariannu caffael yr eiddo rydych yn elwa ohono nawr, ond gwnaed y rhodd cyn 6 Ebrill 2002 (os oedd yn agored i dreth am y tro cyntaf yn 2010-11).

Ceir sawl rhyddhad ac eithriadau rhag treth. I gael help i benderfyna p'un a ydych yn agored i dreth a sut i gyfrifo'r budd ewch i **www.hmrc.gov.uk/poa** neu ffoniwch Linell Gymorth Profiant ac Etifeddiant ar **0845 302 0900**.

Does dim rhaid i chi dalu'r tâl Treth Incwm hon os byddwch yn dewis o fewn yr amser a ganiateir i'ch ystâd dalu Treth Etifeddiant ar yr eiddo pan fyddwch farw. Mae manylion llawn ynglŷn â dewisiadau, gan gynnwys sut a phryd i ddewis a'r ffurflen i'w defnyddio ar gael yn Rhan 3 o'r arweiniad manwl yn **www.hmrc.gov.uk/poa** Gallwch gael y ffurflen i wneud y dewis IHT500 a'r nodiadau arweiniol **IHT501** drwy ffonio **0845 234 1000** neu **0845 302 0900**.

Rhyddhad treth

Mae'r adran hon yn cwmpasu'r mathau mwyaf cyffredin o ryddhad a hawlir – ar gyfer taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig ac elusennau – ac ar gyfer Lwfans Person Dall. Os ydych am wneud cais am ryddhad nad yw wedi ei gynnwys yn yr adran hon (er enghraifft, Lwfans Pâr Priod ar sail oedran) darllenwch y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol* a amgaewyd gyda'ch ffurflen dreth i weld os yw'r rhyddhad hwnnw wedi ei gynnwys yno, neu darllenwch dudalennau eraill eich ffurflen dreth.

Cyfrannu i gynlluniau pensiwn cofrestredig a chynlluniau pensiwn tramor

Os ydych yn unigolyn yn y DU sy'n cronni buddiannau mewn cynllun pensiwn cofrestredig, gallwch fel arfer cael rhyddhad treth ar eich cyfraniadau i'r cynllun hwnnw (eich cyfraniadau chi neu rai rhywun arall ar eich rhan, heblaw eich cyflogwr). Rhaid:

- bod gennych enillion trethadwy yn y DU, er enghraifft incwm o gyflogaeth neu elw o hunangyflogaeth, neu
- eich bod yn preswylio yn y DU ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn dreth, neu
- eich bod wedi preswylio yn y DU ar ryw adeg yn y bum mlynedd flaenorol a phan ymunoch chi â'r cynllun pensiwn, neu
- bod gennych enillion o gyflogaeth dramor o dan y Goron sy'n drethadwy yn y DU (neu mae gan eich priod enillion).

Gellir hawlio'r rhyddhad treth ar y cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn y'i talwyd. Ni roddir rhyddhad treth ar gyfer cyfraniadau a wnewch ar ôl cyrraedd 75 mlwydd oed.

Efallai y bydd polisi aswiriant bywyd gennych yn eich cynllun pensiwn cofrestredig. Nid yw pob polisi aswiriant bywyd yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth. Bydd darparwr eich pensiwn yn gallu dweud wrthych os nad yw eich taliadau yn gymwys am ryddhad treth. Os nad yw eich taliadau'n gymwys ar gyfer rhyddhad treth peidiwch â nodi unrhyw beth ar y ffurflen dreth hon.

Am fanylion pellach gofynnwch am Daflen Gymorth 347 *Personal term assurance contributions to a registered pension scheme.*

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Terfynau'r rhyddhad

Yr uchafswm y gallwch wneud cais ar ei gyfer yw naill ai:
- £3,600, neu os yw'n uwch
- cyfanswm eich enillion trethadwy yn y DU am y flwyddyn.

Gellir rhoi rhyddhad treth o hyd at £3,600 ar gyfraniadau sy'n uwch na'ch enillion trethadwy yn y DU dim ond os yw'r cynllun pensiwn yn gynllun sy'n gweithredu 'rhyddhad wrth y ffynhonnell' (gweler tudalen TRG 17).

Eich cynllun pensiwn sy'n dewis sut gewch eich rhyddhad treth. Mae'r rhyddhad ar gael mewn tair ffordd.

Taliadau a ddidynnir o'ch cyflog cyn iddo gael ei drethu (trefniant tâl net).

Os caiff eich taliadau i gynllun pensiwn galwedigaethol eich cyflogwr (neu unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynllun) eu didynnu o'ch cyflog cyn iddo gael ei drethu byddwch eisoes wedi derbyn eich rhyddhad treth. Peidiwch â nodi unrhyw beth ar y ffurflen dreth hon.

Rhyddhad wrth y ffynhonnell

Blwch 1 *Taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig*

O dan drefniadau 'rhyddhad wrth y ffynhonnell', gwneir taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig ar ôl rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol (20% yn 2010-11). Bydd darparwr y pensiwn wedi hawlio rhyddhad treth sylfaenol ar eich rhan ac wedi ei ychwanegu at eich cronfa bensiwn. Byddwch wedi gwneud taliad 'net'. Dylech nodi'r swm gros ym mlwch 1; hynny yw, y swm a daloch yn ogystal â'r rhyddhad treth. Efallai bydd y symiau hyn yn ymddangos ar eich tystysgrif pensiwn neu'r dderbynneb a gewch gan y gweinyddwr neu, gallwch ei gyfrifo drwy rannu'r swm a daloch mewn gwirionedd gyda 80 a lluosi'r canlyniad gyda 100.

Enghraifft

Rydych wedi talu £800 i'ch cronfa bensiwn. Dylech nodi £1,000 (£800 wedi ei rannu gyda 80 a'i luosi gyda 100) ym mlwch 1. Dyma eich taliad net yn ogystal â'ch rhyddhad treth o £200 (£1,000 ar 20%).

Os talwch dreth ar 40%, neu 40% yn ogystal â 50% bydd hawl gennych gael rhyddhad treth pellach. Byddwn yn cyfrifo'r rhyddhad a'i gynnwys fel credyd yn eich cyfrifiad treth.

Os oes gennych god treth, er mwyn ein helpu i baratoi cod cywir, nodwch fanylion unrhyw daliadau pensiwn 'unigol' a gynhwyswyd ym mlwch 1 yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6. Mae taliadau unigol yn daliadau a wnaed yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2011 nad ydych yn bwriadu eu hail adrodd yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2012.

Taliadau a wnaed yn llawn

Blwch 2 *Taliadau i gontract blwydd-dal ymddeol*

Os oes gennych gontract blwydd-dal ymddeol ac os nad yw darparwr y blwydd-dal ymddeol yn gweithredu'r system rhyddhad wrth y ffynhonnell (byddan nhw ddim yn hawlio rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol ar eich rhan) nodwch gyfanswm eich taliadau ar gyfer 2010-11. Byddwn yn cyfrifo'r rhyddhad treth a'i gynnwys fel credyd yn eich cyfrifiad treth.

Blwch 3 *Taliadau i gynllun eich cyflogwr na chawsant eu didynnu o'ch cyflog cyn treth*

Os gwnaethoch daliadau i gynllun pensiwn cofrestredig cyflogwr ac ni roddwyd rhyddhad treth ar adeg talu, gallwch hawlio rhyddhad ar eu cyfer nawr drwy nodi'r cyfanswm a dalwyd gennych yn y flwyddyn dreth ym mlwch 3. Byddwn yn cyfrifo'r rhyddhad treth a'i gynnwys fel credyd yn eich cyfrifiad treth.

Gallai hyn ddigwydd:

- pan oedd eich cyfraniadau i gynllun galwedigaethol eich cyflogwr yn uwch na'ch enillion o'r gyflogaeth honno, neu
- pan oedd eich cyflogwr yn methu didynnu'r cyfraniadau o'ch cyflog cyn ei drethu (efallai oherwydd i chi wneud y taliad yn agos at 5 Ebrill), neu
- pan nad ydych yn gyflogai ond rydych yn aelod o gynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus neu gronfa peilotiaid y môr, neu
- pan ydych yn aelod o gynllun pensiwn galwedigaethol ond talwyd cyfraniadau ar eich rhan gan rywun arall (nad oedd eich cyflogwr).

Blwch 4 *Taliadau i gynllun pensiwn tramor*

Os gwnewch daliadau (na chawsant eu didynnu o'ch cyflog cyn treth) i gynllun pensiwn tramor nad yw'n gynllun pensiwn cofrestredig yn y DU efallai y bydd gennych hawl i ryddhad treth. Os gallwch hawlio rhyddhad aelod mudol (*migrant member relief*), rhyddhad trosiannol cyfatebol neu ryddhad o dan Gytundeb Trethiant Dwbl, nodwch y swm sy'n gymwys am ryddhad ym mlwch 4.

Cyfrannu at elusennau

Mae blychau 5 i 12 ar gael i chi roi manylion rhoddion i elusennau rydych am hawlio rhyddhad ar eu chyfer. At y diben hwn mae 'elusen' yn golygu sefydliad sy'n cwrdd â diffiniad elusen at ddibenion treth. Mae CThEM yn cyhoeddi rhestr ar ei wefan o sefydliadau y cadarnhawyd eu bod yn cwrdd â'r diffiniad.

Rhodd Cymorth

Mae Rhodd Cymorth yn rhyddhad treth ar gyfer rhoddion o arian i elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CChAC). Bydd yr elusen neu'r CChAC yn gofyn i chi roi datganiad i gadarnhau eich bod wedi talu Treth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU sydd o leiaf yn gyfartal â'r swm y gallent ei hawlio'n ôl oddi wrthym. Os na fyddwch wedi talu swm Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf sy'n gyfartal â'r swm y bydd yr elusen neu'r CChAC yn hawlio fel ad-daliad ar eich rhodd, byddwn yn gofyn i chi dalu'r gwahaniaeth (fel arfer drwy ei gynnwys yn eich cyfrifiad treth).

Os buoch yn gwneud taliadau i elusennau o dan weithred cyfamod ers cyn 6 Ebrill 2000 bydd y taliadau hynny'n cael eu cynnwys o dan Rodd Cymorth yn awtomatig. Os ydych wedi llunio gweithred ers 6 Ebrill 2000 dylai'r elusen fod wedi gofyn i chi gwblhau datganiad eich bod yn talu Treth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU.

Os talwch dreth ar y gyfradd uwch, neu gyfradd ychwanegol gallwch hawlio rhyddhad treth ychwanegol – mae'r cyfrifiad treth yn ei gyfrifo drosoch.

Os ydych yn 65 oed neu'n hŷn, gallai eich taliadau Rhodd Cymorth leihau eich bil treth, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau blwch 1 ar dudalen TR 1 – bydd angen eich dyddiad geni arnom i gyfrifo eich lwfansau personol rhydd o dreth yn gywir.

Blwch 5 *Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011*

Nodwch y symiau gwirioneddol a roddwyd neu a gyfamodwyd; peidiwch ag ychwanegu unrhyw dreth y credwch y bydd yr elusen yn ei hadennill. Peidiwch â chynnwys unrhyw daliadau o dan 'Rhoi drwy'r gyflogres' (ym mlwch 5 neu unrhyw fan arall ar y ffurflen dreth); caiff y taliadau hynny ei didynnu o'ch cyflog cyn i'ch cyflogwr ei drethu. Os gofynnoch i ni roi unrhyw ad-daliad treth ar gyfer 2009-10 i elusen (trwy eich ffurflen dreth 2009-10) ac roeddech wedi rhoi tic yn y blwch er mwyn i Rodd Cymorth fod yn gymwys, dylid cynnwys y taliad hwnnw yn y ffigur a nodwch ym mlwch 5.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Blwch 6 *Cyfanswm y taliadau unigol ym mlwch 5*

Er mwyn ein cynorthwyo i gael eich cod treth TWE yn gywir, os oes gennych un, nodwch unrhyw daliadau unigol a gynhwyswyd ym mlwch 5, ym mlwch 6. Bydd y rhain yn daliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 nad ydych yn bwriadu eu hailadrodd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012.

Blwch 7 *Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 ond a chawsant eu trin fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2010*

Os ydych eisoes wedi gofyn i ni drin taliadau a wnaed yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2010, nodwch y taliadau hynny ym mlwch 7.

Blwch 8 *Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl 5 Ebrill 2011 ond sydd i'w trin fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011*

Gallwch ofyn i ni drin taliadau Rhodd Cymorth a wnaed rhwng 6 Ebrill 2011 a'r dyddiad yr anfonoch eich ffurflen dreth atom (gan dybio eich bod wedi ei dychwelyd erbyn y dyddiad cau priodol), fel petaent wedi eu gwneud yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011. Efallai y byddwch am wneud hyn os gwyddoch na fyddwch yn talu treth ar y gyfradd uwch eleni ond gwyddoch eich bod wedi (neu y byddwch) yn gwneud hynny yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011. (Ni allwch wneud hyn ar ffurflen dreth sydd wedi ei diwygio.)

Blwch 9 *Gwerth cyfranddaliadau neu warantau cymwys a gyfrannwyd ar ffurf rhodd i elusen*

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer unrhyw gyfranddaliadau a gwarantau cymwys a roddwyd neu a werthwyd i elusen am lai na'u gwerth marchnad.
Mae cyfranddaliadau a gwarantau cymwys yn cynnwys:
- y rheiny a restrwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig, neu
- y'i masnachu mewn unrhyw farchnad yn y DU,
- unedau mewn ymddiriedolaeth unedol awdurdodedig
- cyfranddaliadau mewn cwmni buddsoddi penagored
- buddiant mewn cronfa alltraeth.

Nodwch ym mlwch 9 gwerth net y budd sy'n deillio o'r cyfranddaliadau neu'r gwarantau i'r elusen, llai unrhyw symiau neu fuddiannau a gafwyd oddi wrth yr elusen. Ychwanegwch unrhyw fân gostau a dalwch mewn cysylltiad â'r trosglwyddiad at y gwerth hwnnw, er enghraifft ffioedd broceriaid neu ffioedd cyfreithiol.

Fel arfer y budd net i'r elusen yw gwerth marchnad y buddsoddiad cymwys. Ond mae rheolau arbennig yn gymwys os gosodir yr elusen o dan **unrhyw ymrwymiad mewn perthynas â throsglwyddiad y buddsoddiad iddi neu os caffaelwyd y buddsoddiad fel rhan o gynllun i gael rhyddhad treth neu i gynyddu'r rhyddhad treth** – gofynnwch y Llinell Gyswllt Gymraeg am Daflen Gymorth 342 *Charitable giving* neu cysylltwch â ni os byddwch am gael rhagor o wybodaeth.

Blwch 10 *Gwerth tir neu adeiladau cymwys a gyfrannwyd ar ffurf rhodd i elusen*

Gallwch hawlio rhyddhad treth ar gyfer unrhyw rodd, neu ased a werthwyd i elusen am lai na'i werth ar y farchnad agored, mewn perthynas â 'buddiant cymwys mewn tir'. Hynny yw, y cyfan o'ch buddiant llesiannol yn y tir rhydd-ddaliadol neu brydlesol hwnnw yn y DU.

Nodwch ym mlwch 10 gwerth net y budd sy'n deillio o'r tir i'r elusen, llai unrhyw symiau neu fuddiannau a gawsoch gan yr elusen (gweler paragraff olaf y nodiadau ar gyfer blwch 9). Ychwanegwch at y gwerth hwnnw unrhyw gostau a dalwch mewn cysylltiad â'r rhodd neu'r gwerthiant, er enghraifft ffioedd cyfreithiol neu rhai'r prisiwr.

Rhaid i'r elusen roi tystysgrif i chi yn nodi lleoliad y tir a'r buddiant y mae wedi ei dderbyn oddi wrthych.

Blwch 11 *Gwerth buddsoddiadau cymwys a gyfrannwyd ar ffurf rhodd i elusennau nad ydynt wedi eu sefydlu yn y DU ym mlychau 9 a 10*

Gallwch hawlio rhyddhad ar gyfer cyfranddaliadau, gwarantau, tir neu adeiladau cymwys a roddwyd i rai cyrff penodol mewn gwledydd y tu allan i'r DU sy'n bodloni diffiniad elusen at ddibenion treth. Ym mlwch 11, nodwch unrhyw symiau a gynhwyswyd ym mlychau 9 neu 10 pan fo'r elusen y rhoddwyd y buddsoddiadau iddi y tu allan i'r DU.

Blwch 12 *Taliadau Rhodd Cymorth i elusennau o'r tu allan i'r DU ym mlwch 5*

Gallwch hawlio rhyddhad ar gyfer rhodd-daliadau Rhodd Cymorth i gyrff mewn rhai gwledydd y tu allan i'r DU sy'n bodloni diffiniad elusen at ddibenion treth. Ym mlwch 12, nodwch unrhyw symiau a gynhwyswyd ym mlwch 5 pan fo'r elusen y rhoddwyd y buddsoddiadau iddi y tu allan i'r DU.

Blwch 11 a blwch 12

Os ydych wedi nodi unrhyw ffigurau ym mlychau 11 neu 12, dylech roi dadansoddiad o'r ffigurau hynny ym mlwch 19. Dylai'r dadansoddiad hwn restru enwau'r elusennau nad ydynt wedi eu cofrestru yn y DU, y gwledydd lle y'u sefydlwyd a'r swm a gyfrannwyd at bob elusen.

Lwfans Person Dall

Blwch 14 *Nodwch enw'r awdurdod lleol neu gofrestr arall*

Bydd yr awdurdod lleol yn cynnwys eich enw ar eu cofrestr o bobl ddall pan gyflwynwch dystysgrif offthalmolegydd iddynt.

Os ydych yn byw yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon, does dim rhaid i awdurdodau lleol gadw cofrestr o bobl ddall, er bod rhai yn gwneud hynny, ond gallwch hawlio'r lwfans os yw eich golwg mor wael fel na allwch gyflawni **unrhyw** waith lle mae'r golwg yn hanfodol. Fel arfer bydd eich arbenigwr llygaid yn ardystio eich bod yn ddall cyn y gallwch hawlio'r lwfans hwn. Ysgrifennwch 'Yr Alban' neu 'Gogledd Iwerddon' ym mlwch 14.

Os cawsoch eich cofrestru am y tro cyntaf ar ôl 5 Ebrill 2011 efallai y gallwch wneud cais ar y ffurflen dreth hon os oes gennych dystiolaeth i ddangos bod y cyflwr eisoes yn bodoli yn y flwyddyn hyd 5 Ebrill 2011.

Blwch 15 *Os ydych am gael lwfans eich priod neu eich partner sifil sy'n weddill*

Os ydy'ch priod neu eich partner sifil wedi gwneud cais am Lwfans Person Dall ond nid oes ganddynt ddigon o incwm trethadwy i ddefnyddio'r holl lwfans, gallwch gael yr hyn sy'n weddill drwy roi 'X' ym mlwch 15.

Blwch 16 *Os ydych am i'ch priod neu eich partner sifil gael yr hyn sy'n weddill o'ch lwfans*

Os ydych yn hawlio'r lwfans ond yn methu â'i ddefnyddio i gyd, gallwch roi'r hyn sy'n weddill i'ch priod neu eich partner sifil drwy roi 'X' ym mlwch 16.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Cwmnïau Gwasanaeth

Blwch 1 *Os gwnaethoch ddarparu eich gwasanaethau drwy gwmni gwasanaeth*

Cwblhewch y blwch hwn os gwnaethoch ddarparu eich gwasanaethau drwy gwmni gwasanaeth. Gwnaethoch ddarparu eich gwasanaethau drwy gwmni gwasanaeth:

- os gwnaethoch gyflawni gwasanaethau (deallusol, â llaw neu gymysgedd o'r ddau) ar gyfer cleient (neu gleientiaid), ac
- os darparwyd y gwasanaethau o dan gontract rhwng y cleient(iaid) a chwmni, yr oeddech ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth, yn gyfranddaliwr ynddo, ac
- os oedd incwm y cwmni ar unrhyw adeg, yn ystod y flwyddyn dreth, yn deillio'n gyfan gwbl neu'n bennaf (hynny yw, mwy na'i hanner) o wasanaethau a gyflawnir gan y cyfranddaliwr yn bersonol.

Peidiwch â chwblhau'r blwch hwn os yw'r holl incwm a gawsoch o'r cwmni yn incwm cyflogaeth.

Enghraifft

Darperir gwasanaethau drwy gwmni gwasanaeth fel y disgrifir uchod.

Cyflog a gafwyd o'r cwmni gwasanaeth		£15,000
Difidendau o gwmnïau'r DU (gan gynnwys credyd treth)		
• o'r cwmni gwasanaeth	£50,000	
• o bortffolio cyfranddaliadau	£5,000	£55,000
Cyfanswm		£70,000
Swm i'w nodi (ac eithrio difidendau'r portffolio cyfranddaliadau) ym mlwch cwmnïau gwasanaeth, blwch 1 ar dudalen TR 4		£65,000

Gorffen eich ffurflen dreth

Dyddiadau allweddol

- **31 Hydref 2011** – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth bapur
- **30 Rhagfyr 2011** – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth ar-lein os ydych am i ni gasglu'r dreth sy'n ddyledus drwy eich cod treth TWE
- **31 Ionawr 2012** – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dreth ar-lein a thalu

Cyfrifo eich treth

Cyhyd â'ch bod yn dychwelyd eich ffurflen dreth bapur atom erbyn **31 Hydref 2011**, rydym yn gwarantu dweud wrthych p'un a oes unrhyw dreth i'w thalu cyn y dyddiad talu, sef **31 Ionawr 2012**. Byddwn yn anfon ein cyfrifiad treth atoch a bydd hwn yn dangos p'un a oes angen i chi wneud taliadau ar gyfrif am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012. Anfonir datganiad atoch yn nes ymlaen ac amgaeir slip talu os bydd angen i chi dalu unrhyw dreth.

Os cyflwynwch eich ffurflen dreth bapur ar ôl 31 Hydref, efallai na fydd gennym amser i gyfrifo'r dreth sy'n ddyledus a dweud wrthych swm y dreth sy'n rhaid i chi ei thalu cyn y dyddiad talu (31 Ionawr 2012, neu dri mis ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y ffurflen dreth atoch os oedd hyn ar ôl 31 Hydref).

Ni ddylech aros tan i'r cyfrifiad treth neu gais am dâl cael eu hanfon atoch er mwyn gohirio talu unrhyw dreth sy'n daladwy tan ar ôl y dyddiad talu. Codir llog ar unrhyw daliadau a delir yn hwyr ac ar ôl y dyddiad talu. Gellir codi cosb hefyd am dalu'n hwyr yn dibynnu ar ba mor hir y bydd y dreth yn parhau heb ei thalu.

Os anfonir ffurflen dreth atoch ar ôl 31 Gorffennaf yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth, ac rydych am i ni gyfrifo eich treth ar eich rhan, dylech ddychwelyd eich ffurflen dreth o fewn dau fis o'r dyddiad y'i hanfonwyd atoch. Os na allwch wneud hyn, efallai na fyddwn yn gallu anfon cyfrifiad atoch cyn y dyddiad talu, ac os telir treth yn hwyr efallai y bydd yn rhaid i chi dalu llog.

Defnyddiwch y 'bras amcan i'ch bil treth' ar dudalen TRG 26 i gyfrifo amcangyfrif o'r dreth sy'n ddyledus os na fyddwn wedi anfon cyfrifiad treth atoch cyn y dyddiad talu,

neu os ydych am gael syniad o'r dreth fydd yn ddyledus, neu a allai fod yn ad-daladwy am y flwyddyn i 5 Ebrill 2011.

Os ydych am gyfrifo eich bil treth i'r dim, bydd y tudalennau *Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth* a'r *nodiadau* (ar gael o'r Llinell Gyswllt) yn eich tywys drwy'r broses. Os ydych am ddangos canlyniad eich cyfrifiad i ni yna amgaewch dudalennau *Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth* gyda'ch ffurflen dreth. Byddwn yn anfon ein cyfrifiad treth atoch os byddwn yn anghytuno â'ch ffigur chi, neu os na fyddwch wedi amgáu *Crynodeb o'r Cyfrifiad Treth* gyda'ch ffurflen dreth.

Os byddwn yn anfon ad-daliad atoch, ar ôl prosesu eich ffurflen, bydd wedi ei seilio ar yr wybodaeth a nodwyd gennych yn eich ffurflen dreth. Nid yw hyn yn golygu ein bod wedi gwirio eich ffurflen dreth yn fanwl neu ein bod wedi derbyn bod yr wybodaeth yn gywir ac yn gyflawn. Os darganfyddwn yn hwyrach bod rhywbeth yn anghywir byddwn yn gofyn i chi ddychwelyd unrhyw ad-daliad gormodol a anfonwyd atoch.

Treth a ad-dalwyd neu a wrthbwyswyd

Blwch 1 *Os ad-dalwyd neu os gwrthbwyswyd unrhyw Dreth Incwm ar gyfer 2010-11*

Gallai hyn fod yn ad-daliad o ddidyniadau CIS (os ydych yn gweithio yn y diwydiant adeiladu), treth TWE (er enghraifft, ad-daliad mewn perthynas â chais i gymudo pensiwn pitw) neu dreth a dalwyd ar incwm o gynilion. Neu gallai fod yn swm rydym wedi ei glustnodi i'w osod yn erbyn dyled sy'n bodoli eisoes.

Os nad ydych wedi talu digon o dreth

Blwch 2 *Os oes arnoch dreth ar gyfer 2010-11 ac mae gennych god treth TWE*

Os oes arnoch dreth o hyd at £2,000 byddwn yn ceisio ei chasglu drwy eich cod treth TWE ar gyfer 2012-13, os oes un gennych. Rhaid i chi gyflwyno eich ffurflen dreth (ar bapur neu ar-lein) erbyn 31 Rhagfyr os ydych am i ni wneud hyn.

Os **nad** ydych am i ni gasglu'r dreth sydd arnoch drwy eich cod treth ac mae'n well gennych dalu unrhyw swm sy'n ddyledus erbyn 31 Ionawr 2012, rhowch 'X' yn y blwch.

Blwch 3 *Os yw'n debygol y bydd arnoch dreth ar incwm ar gyfer 2011-12, heblaw am enillion o gyflogaeth neu bensiynau*

Os ydych wedi cynnwys un o'r mathau canlynol o incwm yn y ffurflen dreth hon:
- cynilion neu fuddsoddiadau
- eiddo
- enillion achlysurol, neu
- comisiwn

ac rydych yn disgwyl derbyn incwm o'r fath yn y flwyddyn dreth hon (2011-12), gallwch dalu'r dreth fydd yn ddyledus yn 2011-12 mewn dwy ffordd.

Os oes gennych ffynhonnell incwm TWE gallwn amcangyfrif faint o incwm rydych yn debygol o dderbyn (yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd yn y ffurflen dreth hon) a chyfrifo'r dreth a ddaw'n ddyledus. Gallwn wedyn ei ychwanegu at y dreth fydd eich cyflogwr neu ddarparwr eich pensiwn yn tynnu o'ch enillion neu eich pensiwn. Byddwn yn gwneud hyn drwy addasu eich cod treth TWE fel eich bod yn talu rhan o'r dreth sy'n ddyledus bob tro y cewch eich talu. Yn y ffordd hon dylech gael bil treth sy'n llai ar ddiwedd y flwyddyn dreth neu ni fydd gennych ragor o dreth i'w thalu ar yr incwm hwn.

Os oes eitemau yn eich cod treth TWE 2011-12 a fydd yn wahanol i'r symiau a ddangosir ar eich ffurflen dreth, dylech ddweud wrthym amdanynt ar wahân yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6. Ond peidiwch â defnyddio blwch 19 i ddweud wrthym yn unig swydd am newidiadau sydd ei hangen ar eich cod treth.

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Os hoffech i ni gasglu eich treth ar gyfer 2011-12 yn y ffordd hon, does dim angen i chi wneud dim nawr; gadewch flwch 3 yn wag. Byddwn yn newid eich cod treth TWE ar gyfer 2011-12 yn awtomatig.

Os amcangyfrifir y bydd symiau'r incwm yn uwch na £10,000 ni fyddem fel arfer yn diwygio eich cod treth TWE ar gyfer y swm uwchben £10,000 – oni bai eich bod yn dweud wrthym yr hoffech dalu'r dreth yn y ffordd hon.

Fel arall, gallwch dalu'r dreth yn uniongyrchol i ni, ar ôl i chi gwblhau eich ffurflen dreth ar gyfer 2011-12. Bydd yn rhaid i chi naill ai talu mewn un taliad erbyn 31 Ionawr 2013, neu mewn rhai amgylchiadau penodol gallwn ofyn i chi wneud dau daliad ar gyfrif tuag at eich bil treth. Un erbyn 31 Ionawr 2012 ac un erbyn 31 Gorffennaf 2012 (gydag unrhyw weddill sy'n daladwy erbyn 31 Ionawr 2013). Os yw'n well gennych dalu trwy'r dull hwn, rhowch 'X' ym mlwch 3. Os gwnewch hyn, anfonir ffurflen dreth atoch ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Ewch i **www.hmrc.gov.uk** am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r ddau ddull hwn o dalu treth. Bydd sut y cwblhewch flwch 3 nawr yn gwrthwneud unrhyw drefniadau a wnaethoch gyda ni yn flaenorol.

Os ydych wedi talu gormod o dreth

Blwch 4 i flwch 8

Mae ad-dalu treth a ordalwyd gennych yn uniongyrchol i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a enwebwyd gennych yn ddiogel, cyflym ac effeithlon, i chi ac i ni. Ond cymerwch ofal pan fyddwch yn cwblhau blychau 4 i 8, yn arbennig pan fyddwch yn nodi rhif eich cyfrif a'r cod didoli (gallai'r ad-daliad fynd ar goll os gwnewch gamgymeriad). Os fel eithriad, mae gan rif eich cyfrif fwy nag wyth digid, nodwch y digidau ychwanegol nesaf at y blychau ym mlwch 7. Cwblhewch flwch 8 dim ond os ydych wedi gofyn i ni anfon ad-daliad i'ch cymdeithas adeiladu.

Os oes gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ond rydych yn gadael blychau 4 i 8 yn wag, ac os nad yw manylion eich cyfrif gennym, efallai y gofynnwn i chi am wybodaeth ychwanegol yn ysgrifenedig. Bydd hyn yn golygu oedi cyn anfon eich ad-daliad atoch.

Os bydd swm sy'n ddyledus, yn dod yn daladwy yn y dyfodol agos, byddwn fel arfer yn gwrthbwyso unrhyw ad-daliad yn erbyn y rhwymedigaeth honno. Byddwn fel arfer yn cario symiau sy'n is na £10 ymlaen a'u gosod yn erbyn eich bil treth nesaf ond byddwn yn ad-dalu'r swm os byddwch yn gofyn i ni, hyd yn oed os yw'n swm bach.

Os hoffech i ni anfon rhan o'ch ad-daliad neu'ch ad-daliad cyfan at elusen o'ch dewis, gallwch ddefnyddio'r ffurflen *'Cyfrannu eich ad-daliad treth i elusen'* a amgaewyd gyda phecyn y ffurflen dreth. Mae'r wybodaeth ar flaen y ffurflen yn dweud wrthych ba wybodaeth ychwanegol fydd ei hangen arnoch. Yr uchafswm y gallwn ei anfon yw cyfanswm gwerth eich ad-daliad (gan gynnwys gordaliad am flwyddyn flaenorol sydd wedi ei gadw ar eich cyfrif Hunanasesiad ac unrhyw daliadau ar gyfrif a wnaed yn barod), felly ni fyddwch yn derbyn bil treth ychwanegol os byddwch yn nodi swm sy'n fwy na'ch ad-daliad gwirioneddol.

Gallwch ychwanegu 25% at werth eich cyfraniad heb unrhyw gost ychwanegol i chi trwy ddefnyddio Rhodd Cymorth. Bydd yr elusen wedyn yn gallu adennill treth ar y gyfradd sylfaenol ar y swm a gyfrannwch. Dylech ddefnyddio Rhodd Cymorth dim ond os disgwyliwch dalu digon o Dreth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf y DU yn y flwyddyn dreth **gyfredol** (nid blwyddyn y ffurflen dreth) i gwrdd â swm y dreth y bydd yr elusen yn hawlio'n ôl. Os na fyddwch yn talu digon o dreth yn y flwyddyn dreth gyfredol, yna byddwn yn gofyn i chi dalu'r gwahaniaeth (fel arfer drwy ei gynnwys yng nghyfrifiad treth y flwyddyn ddilynol).

Blwch 9 *Os nad oes gennych gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu*

Gallwn anfon siec i gyfeiriad eich cartref os na fydd gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, ond mae ad-daliad trwy siec yn llai diogel, a bydd yn cymryd yn hwy i'ch cyrraedd nac os byddwn yn ad-dalu'n uniongyrchol i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Ad-dalu enwebeion

Blychau 10 i 14

Os hoffech i ni anfon yr ad-daliad yn uniongyrchol i gyfrif banc eich enwebai, nodwch fanylion cyfrif banc eich enwebai ym mlychau 4 i 8, rhowch 'X' ym mlwch 10, a chwblhewch flychau 11 i 14 fel y bo'n briodol.

Os na wyddoch fanylion banc eich enwebai ac os hoffech i ni dalu â siec, gadewch flwch 4 a blychau 6 i 8 yn wag. Rhaid i chi nodi enw'r enwebai ym mlwch 5 o hyd. Ni chaiff yr ad-daliad ei anfon yn awtomatig ac efallai y bydd ychydig o oedi wrth i ni brosesu'r ad-daliad.

Er mwyn sicrhau bod yr hysbysiad am yr ad-daliad yn cael ei anfon i'r cyfeiriad cywir, dylech nodi cyfeiriad eich enwebai ym mlwch 12.

Os gofynnwch i ni ad-dalu eich enwebai bydd unrhyw ad-daliadau eraill yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 yn cael eu hanfon at y person hwnnw hefyd, oni bai y byddwch yn cysylltu â ni i ddweud yn wahanol.

Eich cynghorydd treth, os oes un gennych

Mae cwblhau blychau'r cynghorydd treth yn ddewisol.

Blwch 15 *Enw eich cynghorydd treth*

Nodwch enw eich cynghorydd treth ond os yw ef/hi yn gweithio i ffyrm neu gwmni, nodwch enw'r ffyrm neu'r cwmni.

Os ydych am i ni drafod eich materion treth gyda'ch cynghorydd (eich cyfrifydd, cynghorydd treth, cyfaill neu berthynas), rhaid i chi yn gyntaf ein hawdurdodi ar wahân yn ysgrifenedig neu ar-lein i wneud hynny. Ni fyddwn yn ystyried bod nodi eu manylion ym mlychau 15 i 18 neu yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' blwch 19 yn gyfystyr â rhoi'r awdurdod hwnnw.

Llofnodi eich ffurflen a'i dychwelyd

Blwch 20 *Os yw'r ffurflen dreth hon yn cynnwys ffigurau dros dro neu rai sydd wedi'u hamcangyfrif*

Ffigurau dros dro

Peidiwch â methu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno oherwydd eich bod yn aros am ffigurau terfynol. Yn lle hynny rhowch ffigurau dros dro a gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r ffigurau terfynol cyn gynted a bo modd. Gellir codi cosb arnoch os nad oedd gennych resymau da dros gyflwyno ffigurau dros dro neu os rhoesoch rhai afresymol.

Ni fyddwn yn ystyried:
- pwysau gwaith (arnoch chi neu eich cynghorydd treth)
- cymhlethdod eich materion treth

yn rhesymau da dros ddefnyddio ffigurau dros dro. Rhowch fanylion ynglŷn â rhifau'r blychau ac adrannau eich ffurflen dreth a effeithir yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19 ar dudalen TR 6 eich ffurflen dreth.

Amcangyfrifon (gan gynnwys prisiadau)

Mae amcangyfrifon a phrisiadau'n wahanol ac weithiau efallai na chânt eu hamnewid yn ddiweddarach. Dynodwch y ffigurau hyn – naill ai drwy roi 'X' mewn blwch penodol os gofynnir i chi wneud hynny, neu drwy roi gwybodaeth ynglŷn â nhw yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', blwch 19. Peidiwch â rhoi 'X' ym mlwch 20.

Os credwch fod eich amcangyfrifon yn ddibynadwy, er enghraifft, cyfrannau preifat o'ch treuliau busnes, ni fydd angen tynnu sylw atynt.

Blwch 23 i flwch 26 *Os ydych wedi llofnodi ar ran rhywun arall*

Bydd y rhain yn amgylchiadau eithriadol.

Mae'r gyfraith yn caniatáu ysgutor i lofnodi ffurflen am y cyfnod o 6 Ebrill hyd at ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig.

Awdurdodir y bobl canlynol i gwblhau ffurflen dreth ar ran rhywun nad yw'n alluog yn feddyliol o'i deall hi:

- Derbynnydd a benodir gan y Llys Nawdd (Cymru a Lloegr)
- Curator Bonis a benodir gan Swyddfa Cyfrifydd y Llys (Yr Alban)
- Rheolwr a benodir gan y Swyddfa Gofal a Nawdd (Gogledd Iwerddon)
- Atwrnai a benodir o dan Bŵer Parhaus, wedi'i gofrestru yn y llys priodol; neu
- unrhyw berson a awdurdodir felly gan unrhyw un o'r llysoedd uchod.

Os na fyddwch wedi darparu tystiolaeth o'ch penodiad yn flaenorol, dylech amgáu'r dogfennau perthnasol gyda'r ffurflen dreth hon.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno – i'ch atgoffa

Os na fyddwch wedi dychwelyd eich ffurflen dreth erbyn 31 Hydref ac os na fyddwch wedi cyflwyno ar-lein erbyn 31 Ionawr, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cosb o £100. I gyflwyno ar-lein ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg** a dewiswch *Gwasanaethau Ar-lein*. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ar-lein yw 31 Ionawr, felly os methwch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen bapur, gallwch gyflwyno eich ffurflen dreth ar-lein o hyd cyhyd â'ch bod heb gyflwyno ffurflen dreth yn barod.

Ym mis Rhagfyr byddwn yn anfon nodyn atgoffa ynghyd â slip talu atoch. Os cyfrifwch fod treth yn ddyledus, anfonwch y taliad llawn atom gan ddefnyddio'r slip talu er mwyn ein cyrraedd erbyn 31 Ionawr 2012. Os gwnewch hyn, bydd yn lleihau unrhyw log ac o bosib cosb am dalu'n hwyr y gallai fod rhaid i chi ei thalu.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Ar ôl inni brosesu eich ffurflen dreth, efallai y byddwn yn gwirio eich ffurflen dreth a'i chymharu â gwybodaeth arall sydd gennym ar eich cyfer, er enghraifft oddi wrth eich cyflogwr neu eich banc. Os sylweddolwch fod rhywbeth o'i le, neu eich bod wedi hepgor rhywbeth o'ch ffurflen dreth, rhowch wybod i ni ar unwaith neu fel arall gellir codi cosb arnoch.

Os digwydd i'ch ffurflen dreth fod yn anghywir, ac rydych wedi talu gormod o dreth, byddwn yn eich ad-dalu ynghyd â llog. Os yw'n anghywir ac os nad ydych wedi talu digon, byddwn yn gofyn am rhagor o dreth ac fe godir llog. Gallwn godi cosb hefyd os yw eich ffurflen dreth yn anghywir oherwydd eich bod wedi methu â chymryd gofal rhesymol i'w chwblhau. Mewn rhai amgylchiadau gellir eich erlyn am wallau bwriadol.

Bras amcan o'ch bil treth

Lwfans Personol

£6,475 - os ydych o dan 65 ac mae cyfanswm eich incwm, gan gynnwys difidendau cwmnïau, yn llai na £100,000.

£9,490 - os ydych rhwng 65 a 74 ac mae cyfanswm eich incwm, gan gynnwys difidendau cwmnïau, yn llai na £22,900.

£9,640 - os ydych yn 75 neu'n hŷn ac mae cyfanswm eich incwm, gan gynnwys difidendau cwmnïau, yn llai na £22,900.

Os yw cyfanswm eich incwm rhwng £100,000 a £112,950 gostyngwch £6,475 gan £1 am bob £2 y mae eich incwm yn fwy na £100,000.

Os yw cyfanswm eich incwm yn £112,950 neu fwy bydd y Lwfans Personol yn sero.

1 Ychwanegwch eich incwm at ei gilydd,
ac eithrio unrhyw ddifidendau cwmnïau

1 £

2 Ychwanegwch at ei gilydd

- premiymau blwydd-daliadau ymddeol (blwch 2 ar dudalen TR 4) £
- gwerth y cyfranddaliadau, gwarantau, tir a roddwyd i elusen £
- Lwfans Personol rhydd o dreth *(gweler i'r ochr)* £
- Lwfans Person Dall *o £1,890 os ydych yn ei hawlio* £

2 £

3 Tynnwch 2 oddi wrth 1

3 £

4 Cyfrifwch y dreth sy'n ddyledus ar 3:

- £37,400* cyntaf x 20% *gellir cynyddu £37,400 gan unrhyw daliadau pensiwn personol (blwch 1 ar dudalen TR 4) a Rhodd Cymorth wedi ei grosio (blwch 5 ar dudalen TR 4 x 100/80)* £
- y £112,600 nesaf x 40% £
- y gweddill x 50% £

4 £

5 Os ydych yn agored i dreth ar 40% neu 50%

- difidendau a chredydau treth x 22.5% ar y gwahaniaeth rhwng £112,600 a swm yr incwm o (3) sy'n agored i dreth ar 40% £
- y gweddill x 32.5% £

5 £

6 Ychwanegwch 4 + 5 at ei gilydd

6 £

7 Os ydych yn hunangyflogedig neu mewn partneriaeth
cyfrifwch y CYG Dosbarth 4 ar (elw llai £5,715) x 8%

7 £

8 Treth Enillion Cyfalaf (ar enillion dros £10,100)

- enillion cyn 23/6/2010 x 18% £
- enillion o 23/6/2010 x 18% ar y gwahaniaeth rhwng £37,400* a swm yr incwm o (3) sy'n agored i dreth ar 20% £
- gweddill yr enillion o 23/6/2010 x 28% £

8 £

9 Ychwanegwch 6 + 7 + 8 at ei gilydd

9 £

10 Didynnwch y dreth a dalwyd - *mae'r ffigurau hyn i'w cael ar eich P60/P45 ac unrhyw dreth a ddidynnwyd o incwm o'ch masnach (er enghraifft, didyniadau isgontractiwr) ac unrhyw dreth a ddidynnwyd o log a gafwyd o fanc neu gymdeithas adeiladu*

10 £

11 Yn olaf tynnwch flwch 10 o flwch 9 = y Bil treth

11 £

Nid yw hwn yn fanwl gywir o bell ffordd (ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth Lwfans Pâr Priod, casglu benthyciadau myfyrwyr neu ryddhad credyd treth dramor) ond bydd yn rhoi syniad p'un a oes arnom ni dreth i chi neu a fydd yn rhaid i chi dalu treth erbyn 31 Ionawr 2012.

Taflenni Cymorth

Mae Taflenni Cymorth ar gael drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Cymraeg ar **0845 302 1489** neu gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan yn **www.hmrc.gov.uk**

Ar gyfer tudalen TR 3 y ffurflen dreth

Taflen Gymorth 310	War widow's and dependant's pensions

Ar gyfer tudalen TR 4 y ffurflen dreth

Taflen Gymorth 347	Personal term assurance contributions to a registered pension scheme

Ar gyfer y tudalennau *Gwybodaeth ychwanegol*

Taflen Gymorth 237	Community Investment Tax Relief
Taflen Gymorth 305	Employee shares and securities – further guidance
Taflen Gymorth 320	Gains on UK life insurance policies
Taflen Gymorth 325	Other taxable income
Taflen Gymorth 340	Interest and alternative finance payments eligible for relief on qualifying loans and alternative finance arrangements
Taflen Gymorth 341	Enterprise Investment Scheme – Income Tax relief
Taflen Gymorth 342	Charitable giving
Taflen Gymorth 343	Accrued Income Scheme
Taflen Gymorth 344	Exempt employers' contributions to an overseas pension scheme
Taflen Gymorth 345	Pensions – tax charges on any excess over the Lifetime Allowance, Annual Allowance and Special Annual Allowance, and on unauthorised payments
Taflen Gymorth 346	Pension savings tax charges – guidance for members of overseas pension schemes that are not UK registered pension schemes

Ar gyfer y dudalen *Cyflogaeth*

Taflen Gymorth 201	Vouchers, credit cards and tokens
Taflen Gymorth 202	Living accommodation
Taflen Gymorth 203	Car benefits and car fuel benefits
Taflen Gymorth 205	Seafarers' Earnings Deduction
Taflen Gymorth 207	Non-taxable payments or benefits for employees
Taflen Gymorth 208	Payslips and coding notices
Taflen Gymorth 210	Assets provided for private use
Taflen Gymorth 211	Employment – Residence and domicile issues
Taflen Gymorth 212	Tax equalisation
Taflen Gymorth 213	Payments in kind – assets transferred
Taflen Gymorth 252	Capital Allowances and balancing charges

Ar gyfer y tudalennau *Hunangyflogaeth*

Taflen Gymorth 220	More than one business
Taflen Gymorth 222	How to calculate your taxable profits
Taflen Gymorth 224	Farmers and market gardeners

Taflen Gymorth 227	Losses
Taflen Gymorth 229	Information from your accounts
Taflen Gymorth 232	Farm and stock valuation
Taflen Gymorth 234	Averaging for creators of literary or artistic works
Taflen Gymorth 236	Qualifying care relief: Foster carers, adult placement carers, kinship carers and staying put carers
Taflen Gymorth 238	Revenue recognition in service contracts – UITF 40
Taflen Gymorth 252	Capital allowances and balancing charges

Ar gyfer tudalennau *Tanysgrifenwyr yn Lloyd's*

Taflen Gymorth 240	Lloyd's underwriters

Ar gyfer y tudalennau *Eiddo yn y DU*

Taflen Gymorth 223	Rent a Room for traders
Taflen Gymorth 251	Agricultural land
Taflen Gymorth 252	Capital Allowances and balancing charges

Ar gyfer y tudalennau *Tramor*

Taflen Gymorth 260	Overlap
Taflen Gymorth 261	Foreign Tax Credit Relief: capital gains
Taflen Gymorth 262	Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts
Taflen Gymorth 263	Calculating Foreign Tax Credit Relief on income
Taflen Gymorth 264	Remittance basis
Taflen Gymorth 321	Gains on foreign life assurance policies

Ar gyfer y tudalennau *Ymddiriedolaethau ac ati*

Taflen Gymorth 270	Trusts and settlements – income treated as the settlor's

Ar gyfer tudalennau *Crynodeb o Enillion Cyfalaf*

Taflen Gymorth 275	Entrepreneurs' relief
Taflen Gymorth 276	Incorporation relief
Taflen Gymorth 278	Temporary non-residents and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 281	Husband and wife, civil partners, divorce, dissolution and separation
Taflen Gymorth 282	Death, personal representatives and legatees
Taflen Gymorth 283	Private Residence Relief
Taflen Gymorth 284	Shares and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 285	Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 286	Negligible value claims and Income Tax losses on disposals of shares you have subscribed for in qualifying trading companies
Taflen Gymorth 287	Employee share and security schemes and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 288	Partnerships and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 290	Business asset roll-over relief

Cysylltwch
â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Taflen Gymorth 292	Land and leases, the valuation of land and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 293	Chattels and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 294	Trusts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 295	Relief for gifts and similar transactions
Taflen Gymorth 296	Debts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 297	Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 298	Venture capital trusts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 299	Non-resident trusts and Capital Gains Tax
Taflen Gymorth 301	Beneficiaries receiving capital payments from non-resident trusts: calculation of the increase in tax charge

Ar gyfer y tudalennau *Preswyl, sail drosglwyddo ac ati*

Taflen Gymorth 300	Non-residents and investment income
Taflen Gymorth 302	Dual residents
Taflen Gymorth 303	Non-resident entertainers and sportspersons
Taflen Gymorth 304	Non-residents – relief under Double Taxation Agreements

Gwybodaeth bellach

Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae *Eich Siarter* yn esbonio beth allwch ddisgwyl gennym ni a'r hyn y disgwyliwn gennych chi. I gael gwybodaeth bellach ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/eichsiarter.pdf** a **www.hmrc.gov.uk/charter**

Os oes gennych gŵyn

I gael gwybodaeth ynglŷn â'n gweithdrefnau cwyno ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac o dan *Quick Links* dewiswch *Complaints & appeals*.

Sut fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolydd Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt hwy. Os byddwn yn gwneud hyn, fe fydd yn ôl yr hyn y mae'r gyfraith yn ei chaniatáu yn unig, er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- gwarchod arian cyhoeddus.

Efallai y byddwn yn cymharu'r wybodaeth a dderbyniwn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau trethi a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** a defnyddiwch y cyfleuster Chwilio i ddod o hyd i'r adran Deddf Diogelu Data.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar eich hawl i apelio. Gellir dod o hyd i unrhyw newidiadau dilynol i'r nodiadau hyn yn **www.hmrc.gov.uk**

Cyhoeddwyd gan
Tîm rhoi Gwybodaeth i Gwsmeriaid
Rhagfyr 2010 © Hawlfraint y Goron 2010

L22703

Cyllid & Tollau EM